



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG44936

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad– crynodeb o'r ymatebion

Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB

Mai 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

This document is also available in English.

1. Yr Ymgynghoriad

1.1 Gwybodaeth Gefndir

Rydyn ni'n ddiolchgar i'r holl randdeiliaid ac unigolion sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafodd ein Rhaglen Dileu TB gwartheg ei chyflwyno yng Nghymru yn 2008 a'i gweledigaeth oedd mai Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig â statws swyddogol o fod yn wlad heb TB.

Ers hynny mae llawer o waith wedi'i wneud ac mae nifer o welliannau a newidiadau wedi'u gwneud i'r rhaglen gan adeiladu ar y mesurau sydd eisoes yn eu lle. Bydd hynny'n parhau. Yn 2017, cafodd y rhaglen ei rhanbartholi, a chrewyd Ardal TB Isel, Canolradd ac Uchel. Y rhanbartholi hwn oedd y sail ar gyfer dull gwell o weithio gyda mesurau'n cael eu rhoi ar waith trwy Gynllun Cyflawni.

Does dim angen dweud am yr effeithau ofnadwy y gall achos o TB eu cael ar ffermwyr a'u teuluoedd a'i oblygiadau pellgyrhaeddol i bob rhan o'r diwydiant ffermio. Mae'r ystadegau TB tymor hir yn dangos y camau positif rydym wedi'u cymryd i daclo TB gwartheg yng Nghymru, ond gwyddom fod rhagor i'w wneud i wella'n gwaith a chydweithio'n well.

Mae'n amlwg mai'r unig ffordd sydd gennym i drechu'r clefyd yw trwy weithio gyda'n gilydd a rhoddodd yr ymgynghoriad hwn gyfle i unigolion a sefydliadau gynneg syniadau adeiladol ar gyfer creu Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB ac i helpu i ddylanwadu ar ein polisïau ar gyfer y dyfodol.

1.2 Diben yr ymgynghoriad

Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn i randdeiliaid o bob rhan o'r sector ffermio a'r sector iechyd/lles anifeiliaid am eu barn am nifer o welliannau i Raglen Dileu TB Llywodraeth Cymru. Bydd eu barn yn ein helpu i adfywio'n rhaglen ar gyfer Dileu TB gan adeiladu ar y rhaglen a luniwyd yn 2017.

Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ym mis Gorffennaf, yn nodi manylion y ffordd ymlaen.

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

2.1 Cynigion yr ymgynghoriad

Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori nifer o feysydd allweddol yn y Rhaglen Dileu TB fydd yn cael eu hystyried:

Profion TB

- A. Gofyniad cyfreithiol i ffermwyr dalu am Brawf Cyn Symud ar gyfer buchesi yn yr Ardal TB Isel.
- B. Gofyniad cyfreithiol i ffermwyr dalu am Brawf Ar ôl Symud ar gyfer holl symudiadau gwartheg i ddaliadau yn yr Ardaloedd TB Canolradd o Ardaloedd TB Uchel, yr Ardal Risg Uchel a Gogledd Iwerddon
- C. Archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno Prawf Ar ôl Symud y telir amdano gan y ffermwr ar gyfer symudiadau gwartheg o ardal â phroblemau TB, neu os oes buches risg uchel a nodwyd wedi'i gwasgaru
- D. Peidio â chaniatáu prawf clirio buches fel Prawf Cyn Symud fel rydym yn ei wneud ar gyfer achosion mynych o TB mewn buchesi.
- E. Pa ddewisiadau amgen sydd ar gael ar gyfer y prawf/profion y gellir ei ddefnyddio/eu defnyddio ar gyfer Prawf Cyn Symud?
- F. Gofyniad cyfreithiol i ffermwyr beidio â symud gwartheg rhwng diwrnod prawf 1 (diwrnod y pigiad a elwir yn TT1) a diwrnod prawf 2 (diwrnod darllen y prawf a elwir yn TT2) a rhwng profion gwaed a derbyn canlyniadau.
- G. Caniatâd i gasglu sampl at ddibenion profion TB neu gynnal prawf ar sampl

Prynu Gwybodus

- A. Mae ychwanegu map newydd at ibTB yn dangos nifer y blynyddoedd y mae buchesi gwartheg anghyfyngedig wedi bod yn fuchesi sydd â statws heb TB swyddogol (OTF)
- B. Ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu

Talu am wartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB

Opsiynau ar gyfer dull amgen o ymdrin â thaliadau TB

- A. Prisiadau tabl yn unol â'r system bresennol yn Lloegr
- B. Prisiadau tabl gyda chynnydd yn y taliad yn seiliedig ar aelodaeth o gynllun achredu iechyd anifeiliaid cymeradwy
- C. Taliadau i'w penderfynu gan grŵp annibynnol dan arweiniad y diwydiant. Byddai Ardoll y diwydiant yn talu rhai o gostau'r Taliadau TB

Archwilio'r posibilrwydd o wahardd bwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW)

TB a rhywogaethau nad ydynt yn fuchol

- A. Archwilio'r posibilrwydd o gydgrynhoi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer defaid a moch yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011
- B. Nodi anifeiliaid nad ydynt yn fuchol at ddibenion profi TB

Llywodraethu

- A. Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB
- B. Byrddau Dileu Rhanbarthol
- C. Sefydlu Grŵp Cynghori Technegol

Cwestiynau eraill

- A. Effeithiau'r cynigion hyn ar y Gymraeg.
- B. Unrhyw faterion cysylltiedig nad yw'r ymgynghoriad yn mynd i'r afael yn benodol â nhw.

2.2 Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan nifer o sectorau i'r ymgynghoriad gan gynnwys y diwydiant ffermio, milfeddygon, arwerthwyr da byw, mudiadau natur, mudiadau lles ac aelodau'r cyhoedd.

O'r 246 o ymatebion a ddaeth i law, roedd

- 57 gan ffermwyr/ceidwaid
- 9 gan gynrychiolwyr/mudiadau'r diwydiant ffermio
- 7 gan arwerthwyr da byw
- 48 gan aelodau'r cyhoedd
- 23 gan filfeddygon
- 20 gan fudiadau natur
- 1 gan fudiad lles
- 3 gan 'eraill'
- 78 heb eu disgrifio

Fe welwch restr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Gofynnodd rhai ymatebwyr i'w hymatebion/manylion beidio â chael eu cyhoeddi; yn unol â hynny, rydym wedi'u tynnu oddi ar y rhestr. Mae manylion y rhai nad oeddent wedi nodi un ffordd neu'r llall a fyddai'n well ganddynt aros yn ddiennw neu beidio hefyd wedi'u tynnu oddi ar y rhestr.

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar sylwadau a wnaed ar y cynigion a restrir uchod sy'n rhan o Raglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB. Mae'n grynodeb cynrychioliadol o'r prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr ar y cynigion ymgynghori ac ar faterion eraill sy'n rhan o'r Rhaglen Dileu TB ehangach. Gan fod yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar nifer o gynigion cymhleth, mae llawer ohonynt yn ymdrin â mwy nag un pwnc, ac rydym felly wedi gosod sylwadau ymatebwyr o dan y pennawd sy'n cyd-fynd orau.

Oherwydd natur yr ymgynghoriad cynhwysfawr hwn, nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod llawn o'r holl faterion a sylwadau a godwyd. Yn ystod y broses ymgynghori, gofynnodd llawer o ymatebwyr am eglurhad ar y cynigion ac ar agweddau eraill ar y Rhaglen Dileu TB. Gwelwyd hefyd bod rhai ymatebwyr wedi camddeall y cynigion.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o blaid bron pob un o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymdrin â sensitifrwydd profion diagnostig, rheoli bywyd gwyllt, pwysau ar y diwydiant ffermio, a thalu am wartheg yr effeithiwyd arnynt gan TB. Cafwyd sylwadau hefyd yn tynnu sylw at brinder milfeddygon.

Roedd cefnogaeth gref i brynu gwybodus ar sail risg, gwella arferion ffermio o safbwynt yr amgylchedd a risg o'r clefyd, diogelu ardaloedd lle na cheir llawer o achosion o TB a lleihau symudiadau gwartheg, a oedd yn cael ei weld fel y prif lwybr ar gyfer trosglwyddo'r clefyd. Roedd awydd hefyd i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio pobl (leyg) nad ydynt yn filfeddygon i gynnal profion TB.

2.3 Crynodeb o'r Ymatebion

C1. Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad cyfreithiol i ffermwyr dalu am Brawf Cyn Symud ar gyfer buchesi yn yr Ardal TB Isel? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod Profion Cyn Symud yn angenrheidiol i atal y clefyd rhag lledaenu ac na fyddent yn debygol o wneud gwahaniaeth oni bai eu bod yn orfodol. Dywedodd llawer nad yw'r ffaith bod buches mewn Ardal TB Isel yn gwarantu ei bod yn ddi-glefyd, gan gydnabod bod buchesi yn yr ardaloedd hynny yn dal i fod mewn perygl. Ychydig iawn o ymatebwyr oedd o'r farn y byddai hon yn gost ychwanegol na ddylai ffermwyr ei hysgwyddo er eu bod yn wynebu costau cynyddol. Roedd rhai'n teimlo, gan mai polisi'r Llywodraeth yw hwn, y dylai'r Llywodraeth dalu amdano.

Roedd ymatebwyr yn deall y pwysau ariannol sydd ar ffermwyr ac y byddai talu am brofion yn ychwanegu at eu costau, ond teimlwyd y byddai'r manteision a ddaw o gynnal Profion Cyn Symud yn debygol o fod yn fwy na'r risgiau a ddaw o brynu gwartheg a allai fod wedi'u heintio, heb brofion. Roedd lleiafrif yn teimlo bod diffyg tystiolaeth i gefnogi'r cynnig. Roedd ymatebwyr eraill yn canmol y Llywodraeth am ei hymdrechion hyd yma i ddileu TB.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Un drefn brofi ddylai fod ar gyfer Cymru gyfan. Byddai hynny'n decach i bawb; dylai Profion Cyn Symud fod yn orfodol ar gyfer pob symudiad i mewn i Gymru ac o fewn Cymru.
- Mae'n rhesymol i ffermwyr ysgwyddo cost Profion Cyn Symud, gan fod symudiadau'n cael eu gwneud er lles busnes y fferm a byddai ffermwyr yn fwy tebygol o gydymffurfio â'r gofynion; cyfrifoldeb ffermwyr yw'r gost fel costau rhedeg y busnes.

- Mae gan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gosod rhwystrau ariannol neu logistaidd ar y fasnach wartheg y potensial i ddylanwadu ar ymddygiad prynu ffermwyr.
- Bydd gwneud hyn yn ofyniad cyfreithiol yn helpu i fonitro'r clefyd a chasglu data ystadegol gwerthfawr ar nifer yr achosion o'r clefyd.
- Dylid defnyddio Profion Cyn Symud mwy sensitif (h.y. profion IFN-gama neu Actiphage).
- Ar hyn o bryd, yr unig fath o brawf y gellir ei ddefnyddio ar gyfer Prawf Cyn Symud yw'r prawf croen twbercwlin sengl (SICCT). Mae'r prawf SICCT yn llai sensitif ac mae'n well fel prawf lefel buches. Credwn y gallai fod cyfle yn y dyfodol i ddefnyddio'r prawf gwaed IFN-gama mwy sensitif fel rhan o'r broses hon.
- Dylai'r Llywodraeth ariannu, a chyflwyno'r prawf IFN-gama fel 'prawf atodol' mwy sensitif i'r SICCT ac ystyried y potensial o wneud defnydd helaethach o'r prawf IFN-gama fel rhan o'r drefn brofi, gan gynnwys Profion Cyn Symud a Phroffion ar ôl Symud a'r prawf cyfnod byr.
- Mae angen i'r Profion cyn ac ar ôl Symud fod mor sensitif â phosibl. Gellir sicrhau hynny er enghraifft drwy gynnal y prawf SICCT ar y cyd â'r prawf Enferplex. Ni ddylai'r ffermwr dalu am Broffion cyn ac ar ôl Symud, gan mai diffygion y prawf swyddogol sydd wedi creu'r broblem.
- Yn cytuno na fyddwch yn darganfod yr haint yn gynnar ond trwy aros 60-120 diwrnod am y Prawf ar ôl Symud, byddwch yn darganfod gwartheg sydd wedi'u heintio a thrwy hynny eu hatal rhag symud i ddaliad newydd a heintio'r fuches yno.
- Mae angen deall tystiolaeth a chostau/manteision unrhyw newid.
- Effaith profion ychwanegol ar adnoddau milfeddygol.
- Mae angen i'r Llywodraeth gynnal rhagor o waith dadansoddi i ddangos pa mor effeithiol y mae'r profion cyn ac ar ôl symud wedi bod hyd yma o ran lleihau achosion newydd o TB mewn rhanbarthau lle mae achosion yn llai cyffredin. Byddai creu a rhannu sylfaen dystiolaeth mewn cysylltiad â'r polisi hwn yn helpu i gynnal ffydd ac ewyllys da'r cymunedau ffermio a milfeddygol.

C2 Mae angen Prawf Cyn Symud clir ar wartheg sy'n symud i Ardal TB Isel o ardal lle mae TB yn fwy cyffredin. Ydych chi'n cytuno y dylai'r gwartheg hynny gael Prawf ar ôl Symud hefyd ar ôl cyrraedd? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn gan gredu y dylai'r Ardal TB Isel gael ei diogelu rhag clefyd sy'n cael ei gario gan symudiadau gwartheg a gallai Prawf ar ôl Symud ddarganfod heintiad y gallai'r Prawf Cyn Symud fod wedi'i golli. Teimlai llawer y byddai hyn yn lleihau'r risg wrth fasnachu, yn fesur pwysig i leihau'r risg o ledaenu'r clefyd ac yn fodd i'w ddarganfod yn gynnar ar ôl symud, er y cydnabyddir y byddai'n ychwanegu at faich profion ffermwyr. Credwyd mai profion ychwanegol yw un o'r ffyrdd gorau i ddeall yn well wasgariad a throsglwyddiad TB yng Nghymru, ac er mwyn gwella'r siawns o dddarganfod y clefyd, dylid cynnal Profion cyn ac ar ôl Symud.

Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch y gost i ffermwyr. Teimlai rhai nad oedd y ffenestr 60-120 diwrnod yn ddigon i ganfod y clefyd ar ôl symud ac y dylid ystyried estyn y cyfnod hwn. Awgrymodd llawer y dylid ategu'r prawf croen naill ai â phrawf IFN-gama neu brawf gwrthgyrff i wella'r potensial o'i ganfod. Roedd lleiafrif yn teimlo

bod Profion ar ôl Symud yn anymarferol a dylai Profion cyn Symud fod yn ddigon cyn belled â bod digon o hyder yn y prawf.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Nid oes angen Prawf ar ôl Symud bob tro, dim ond ar gyfer symudiadau risg uwch.
- Dylid defnyddio'r egwyddor ragofalus a chynnal profion rheolaidd wrth symud gwartheg.
- Awgrymodd rhai y dylid cynnal profion IFN-gama rheolaidd.
- Mae TB wedi cynyddu yn yr ardal Ardal TB Isel ac felly bydd yn anodd dweud a yw Prawf ar ôl Symud positif yn dangos haint a ddaliwyd yn y daliad newydd neu yn yr hen ddaliad. Yn realistig, ni fyddai'n ddigonol cadw'r anifeiliaid hyn o dan gwarant. Mae Profion cyn Symud a phroffion olrhain yn fesurau syml ac effeithiol i gyfyngu ar ledaeniad clefydau trwy'r symudiadau hyn.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a ddylai gwartheg gael eu symud o ardaloedd risg uwch o gwbl.
- Awgrymodd rhai fod angen data gwyddonol ar y manteision vs. y gost i'r diwydiant er mwyn cefnogi'r cynnig hwn.
- Dylid cyflwyno profion bob chwe mis ar ôl Prawf ar ôl Symud i ddiogelu'r Ardal TB Isel.
- Awgrym i ddarllen yn rheolaidd dim ond y gwartheg sy'n cael adwaith ond hefyd pryderon y caiff rhagor o anifeiliaid positif eu darganfod wrth ddefnyddio profion mwy sensitif.
- Dylid annog ffermwyr i ymuno â'r cynllun CHeCS a chynnal Profion ar ôl Symud yn wirfoddol yn hytrach na bod y Llywodraeth yn gorfodi hynny.
- Pryderon ynghylch prinder milfeddygon i gynnal Profion ar ôl Symud, tra'n cydnabod bod y berthynas rhwng y ffermwr a'r milfeddyg preifat yn fuddiol.
- Byddai'n anodd gwybod ble mae haint Prawf ar ôl Symud positif yn tarddu.
- Yn effeithio ar fusnesau sy'n prynu nifer fawr o wartheg ar wahanol adegau.
- Yn croesawu'r uchelgais i orfodi profion ar ôl symud ar wartheg sy'n symud i'r Ardal TB Isel o ardal lle mae achosion yn fwy cyffredin. Dylid ystyried sut mae cyflwyno'r cynnig hwn. Yn benodol, mae angen deall a oes gan filfeddygon yr adnoddau i gynnal y profion ychwanegol hyn.

C3 A ydych yn cytuno y dylai gwartheg sy'n symud i'r Ardaloedd TB Canolradd o ardaloedd TB uwch gael Prawf Ar ôl Symud? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhaniad rhwng yr ymatebwyr a oedd yn cytuno a'r ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn agos iawn i'r ymateb a gafwyd i C2. Roedd y farn a'r sylwadau hefyd yn debyg i'r rhai a fynegwyd yn C2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn ac roedd llawer yn teimlo y dylid cynnal profion ar ôl symud ar unrhyw wartheg sy'n cael eu symud o ardal lle mae achosion yn fwy cyffredin. Gofynnwyd pam y caniateir symudiadau o gwbl o ardaloedd risg uchel i ardaloedd risg is. Awgrymodd rhai y dylid cynnal Profion cyn ac ar ôl Symud ar bob symudiad rhwng unrhyw ardal. Roedd y rhai a gefnogai'r cynnig yn pwysleisio hefyd pwysigrwydd bioddiogelwch.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Profion blynyddol, neu hyd yn oed brofion 6 mis, yn hytrach na Phrofion ar ôl Symud.
- Anawsterau ymarferol a baich ychwanegol ar ffermwyr.
- Dylid gwobrwyo'r rheini sy'n rhan o CHeCS – ni ddylai fod gofyn iddynt gynnal Profion ar ôl Symud.
- Awgrymu defnyddio'r dehongliad llym iawn o Brofion cyn Symud, yn lle Profion ar ôl Symud.
- Mae 95% o fuchesi yng Nghymru heb TB, sy'n gwneud y cynnig hwn yn anghymesur.
- Awgrymu cyfnod treialu o 6-12 mis, ar gost y Llywodraeth, i asesu effeithiolrwydd y mesur hwn cyn gofyn i ffermwyr dalu.
- Mae'r mesur hwn yn annog pobl i beidio â phrynu o Ardal TB Uchel waeth beth yw hanes y fuches unigol, gan effeithio'n negyddol ar y cynhyrchydd.
- Hira'n y byd y bydd buches wedi bod heb TB, isa'n y byd yw'r risg y bydd ei gwartheg yn cludo'r clefyd heb ei ddarganfod. Gellir cydnabod hyn drwy roi blaenoriaeth i Brofion ar ôl Symud ar sail risg.
- Mae'r trefniadau hyn wedi'u cynllunio'n bennaf i ddiogelu rhanbarthau a gwledydd prin eu heintiau rhag cael yr haint.

C4 A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno Prawf Ar ôl Symud dros dro ar gyfer gwartheg sy'n tarddu o ardal â phroblemau TB, neu o fuchesi risg uchel? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y byddai'n syniad da lleihau'r risg o ledaenu'r clefyd o ardaloedd â phroblemau TB. Roedd llawer o'r farn y byddai'n arwain at lai o brynu risg uchel, ac yn pwysleisio pwysigrwydd biodiogelwch. Awgrymodd cyfran fawr o'r rhai a oedd o blaid y dylid ei wneud yn fesur parhaol. Roedd rhai o'r farn fod Prawf cyn Symud yn annigonol. Awgrymodd llawer hefyd bod angen diffinio'n glir beth yw 'ardal â phroblem TB' (*TB Hotspot*) a buches risg uchel, a dylai manylion y risg yn yr ardal/buches dan sylw fod ar gael yn hawdd. Cododd rhai unigolion gwestiynau ynghylch sut y gellid nodi Ardal â Phroblem TB ar fap.

Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys cymhlethdod gweinyddu'r mesur hwn, yn enwedig sut y byddai ceidwaid yn cael gwybod bod angen cynnal Prawf ar ôl Symud a sut y byddai'n effeithio ar fasnach drawsffiniol. Roedd rhai'n credu bod angen mwy o ddata gwyddonol cyn ei roi ar waith. Unwaith eto, roedd pryder na fyddai Prawf ar ôl Symud positif yn datgelu tarddiad yr haint (y fferm wreiddiol neu fferm pen y daith).

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Roedd rhai, gan gynnwys lleiafrif o'r rhai a gefnogai'r cynnig, yn pryderu am yr ochr ymarferol, er enghraifft cwarantyn wrth aros am brawf.
- Pryderon ynghylch logisteg canfod statws anifeiliaid cyn eu prynu.
- Dylai Prawf cyn Symud fod yn fwy sensitif er mwyn osgoi'r angen am Brawf ar ôl Symud.
- Ni ddylid caniatáu symudiadau o ardaloedd â phroblemau TB a buchesi risg uchel o gwbl.

- Pryderon ynghylch casglu gwybodaeth amserol am fod statws buchesi a'r ardaloedd â phroblemau yn newid dros amser.
- Roedd rhai am weld astudiaeth o effaith Profion ar ôl Symud ar yr Ardal TB Isel cyn rhoi'r mesur ar waith, i asesu ei werth.
- Dylid gadael i ffermwyr ddewis pwy y maent am brynu oddi wrthynt yn hytrach na graddio ardaloedd risg.
- Pryderon am yr effaith ar y fasnach drawsffiniol os bydd anifeiliaid o Loegr yn profi'n bositif ar ôl symud.
- Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer cofnodi symudiadau yn ateb y gofyn o ran cynnal y cynnig hwn; dylid ystyried sefydlu gweithgor gyda chymorth EID Cymru.
- Byddem yn argymhell y symudiad hwn, ac yn ei weld fel cam tuag at bolisi deinamig a chyflym ei ymateb ar gyfer rheoli TB gwartheg. Nid yw'n addas ar gyfer pob buches, ond mae'n nodi'r rhai sydd mewn perygl ac felly'n sicrhau bod y gwaith mwyaf yn canolbwyntio ar ganfod y clefyd lle mae fwyaf tebygol o fod.

C5 Os Ydy oedd eich ateb i C4, ble fyddai'r polisi hwn yn cael yr effaith fwyaf yn eich barn chi? (Er enghraifft Ardaloedd TB Uchel, Ardaloedd TB Canolradd neu Ardaloedd TB Isel).

O'r rheini a atebodd y cwestiwn hwn, teimlai'r mwyafrif mai yn yr Ardal TB Isel y cai'r effaith fwyaf, ac yna Cymru gyfan, gyda chanran fach yn credu mai'r Ardaloedd TB Uchel ac Ardaloedd TB Canolradd fyddai'n teimlo'r effaith fwyaf. Camddeallodd rhai'r cwestiwn gan gredu ei fod yn gofyn 'ble fyddai'r effaith fwyaf andwyol.'

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Mae angen cyfathrebu ac eglurhad gwell o ran diffinio buchesi risg uchel ac ardaloedd risg uchel.
- Mae'n bwysig, yn enwedig os oes mwy o achosion mewn bywyd gwyllt.
- Byddem yn argymhell y symudiad hwn, ac yn ei weld fel cam tuag at bolisi deinamig a chyflym ei ymateb ar gyfer rheoli TB gwartheg. Nid yw'n addas ar gyfer pob buches, ond mae'n nodi'r rhai sydd mewn perygl ac felly'n sicrhau bod y gwaith mwyaf yn canolbwyntio ar ganfod y clefyd lle mae fwyaf tebygol o fod.
- O gofio y gall ardaloedd a buchesi risg uchel fod yn darddiad ar gyfer y clefyd a'i wasgaru'n bell, byddem yn awgrymu y bydd y polisi'n debygol o gael effaith ym mhob ardal. Gallai 'ardal â phroblem TB' olygu rhywbeth gwahanol mewn ardaloedd TB gwahanol ond os bydd ardal neu fuches yn peri risg sylweddol o'i chymharu â'r rhai o'i chwmpas, mae'n rhesymol cymryd camau i liniaru'r risg honno.

C6 A ydych yn cytuno â'r cynnig i beidio â chaniatáu prawf clirio buches fel Prawf Cyn Symud fel rydym yn ei wneud ar gyfer achosion mynych o TB mewn buchesi? Esboniwch eich rhesymau

Er bod y rhaniad rhwng y rheini oedd yn anghytuno ac yn cytuno â'r cynnig yn denau iawn, roedd y mwyafrif yn dal o blaid cydnabod y gallai fod achosion o hyd heb eu datgelu yn y fuches, hyd yn oed ar ôl y prawf clirio. Roedd lleiafrif yn deall y byddai'r cynnig yn estyn hyd y cyfnod pan fyddai'r fuches o dan gyfyngiadau.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dim hyder yn y prawf clirio os oes angen prawf ychwanegol i symud gwartheg; byddai'n tansilio'r drefn brofi bresennol.
- Problemau lles posibl o ganlyniad i orstocio ac os nad oes digon o le i'w cadw.
- Effaith ariannol oherwydd trafferth i'w gwerthu ar ôl codi'r cyfyngiadau.
- Awgrymodd rhai y dylid ategu'r prawf clirio â phrawf IFN-gama i ennyn hyder.
- Yn lle hynny, dylid defnyddio'r dehongliad llym iawn yn gynnar yn yr achos i gael gwared ar yr holl anifeiliaid heintiedig cyn cynnal y prawf clirio.
- Ychydig o effaith os bydd gwartheg yn dal i ddod i gysylltiad â ffynhonnell bywyd gwyllt.
- Câi effaith ddifrifol ar hunan-ddelwedd/cymhelliant/iechyd meddwl ffermwyr gan y byddai'n rhwystr arall i'w groesi.
- Credwn y gallai fod gwerth arafu'r symudiadau oddi ar ffermydd sydd wedi adennill eu statws OTF.
- Cyn ehangu'r gofyniad hwn, dylai'r Llywodraeth werthuso'r risg a ddaw wrth symud anifeiliaid oddi ar fferm yn fuan ar ôl iddi dderbyn statws OTF. I gefnogi hyn, dylid gwerthuso polisi presennol Llywodraeth Cymru, a chyhoeddi'r canfyddiadau i ddeall canlyniad y polisi hwnnw.

C7 Os Ydw oedd eich ateb i C6, ble fyddai'r polisi hwn yn cael yr effaith fwyaf yn eich barn chi? (Er enghraifft Ardaloedd TB Uchel, Ardaloedd TB Canolradd neu Ardaloedd TB Isel neu o dan amgylchiadau penodol).

Roedd mwyafrif llethol y rheini a atebodd y cwestiwn hwn yn teimlo y byddai'r polisi'n cael yr effaith fwyaf mewn Ardaloedd TB Uchel, ac yna Cymru gyfan, gyda rhai'n dweud y byddai'n effeithio ar Ardaloedd TB Canolradd ac Ardal TB Isel. Cyfeiriodd llawer o'r rheini a gredai mai'r Ardaloedd TB Uchel fyddai'n teimlo'r effaith fwyaf at yr ardaloedd â phroblem TB hefyd. Unwaith eto, camddeallwyd y cwestiwn gan rai, i olygu 'ble fyddai'r effaith fwyaf andwyol' yn hytrach na ble fyddai'r polisi'n cael yr effaith fwyaf. Roedd un ymatebydd o'r farn na châi effaith yn unman.

Dyma rai o'r sylwadau:

- Dylid ystyried amgylchiadau penodol, megis buchesi lle ceir achosion o TB sy'n para y tu hwnt i ddau brawf cyfnod byr, neu fuchesi â chlefyd wedi'i gadarnhau.
- Ffermio dwys a dwyseddau stocio uchel sy'n gyfrifol am ledaenu'r clefyd; dylai ffermio symud tuag at ddulliau mwy cynaliadwy.
- Byddai'r polisi profi ychwanegol hwn yn cael yr effaith fwyaf ar lefel buches, waeth beth fo sefyllfa'r fferm.
- Effaith yn yr ardaloedd â phroblemau TB a phocedi eraill lle ceir mwy o achosion.

C8 A ydych yn cytuno â'r datganiad 'dylai'r prawf a ddefnyddir fel Prawf Cyn Symud fod yn fwy sensitif ac felly'n fwy tebygol o nodi gwartheg sydd wedi'u heintio, ond gan gydnabod y byddai hyn ar draul nodi mwy o wartheg sy'n cael canlyniad positif ffug'? Esboniwch eich rhesymau.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r atebwyr gytuno â'r datganiad hwn. Roedd cyfran o'r rhai a oedd yn cytuno yn teimlo, er y byddai mwy o ganlyniadau positif ffug, fod hynny'n well na pheidio â chanfod anifeiliaid sydd wedi'u gwir heintio a bod hynny'n arbennig o bwysig ar gyfer symudiadau o Ardaloedd TB Uchel i Ardaloedd TB Isel ac y dylai fynd law yn llaw â gwella safonau OV. Roedd llawer yn teimlo bod mwy o ganlyniadau positif ffug yn anghenraid anochel os ydym byth am ddileu'r clefyd.

Roedd rhai o'r farn bod hyn yn aberth cymharol fach o ystyried maint y broblem. Dywedodd y lleiafrif nad oeddent yn cefnogi'r datganiad hwn y byddai mesur o'r fath yn tansilio hyder yn y drefn brofi bresennol. Roedd cyfran fach o'r ymatebwyr wedi deall bod y datganiad yn golygu defnyddio dehongliad llym o'r prawf croen yn unig. Roedd rhai o'r farn y dylid mabwysiadu cynllun rheoli tymor hwy a bod nifer yr anifeiliaid heintiedig risg uchel yn cael eu rheoli 'i lawr' dros gyfnod o amser. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chynyddu sensitifrwydd profion, teimlwyd na allai'r diwydiant ysgwyddo cost hyn ar ei ben ei hun.

Roedd rhai o'r farn y dylai'r pedair gweinyddiaeth gydweithio ac edrych yn strategol ar y profion TB a ddefnyddir. Credai eraill pe bai'r prawf IFN-gama yn cael ei ddefnyddio ar ddechrau achos, y byddai'n lleihau hyd a difrifoldeb yr achos, er y ceid mwy o ganlyniadau positif ffug. Roedd rhai am i brofion gwaed preifat gael eu cymeradwyo ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu cyflwyno i'r fuches, fel bod gan y ffermwyrw faint o ddisgresiwn – byddai angen i'r prynwr a'r gwerthwr gytuno ar y canlyniadau posibl.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Ni ddylid lladd anifeiliaid sy'n cael canlyniad positif i brawf mwy sensitif, dim ond eu rhwystro rhag cael eu gwerthu.
- Dylid defnyddio profion gwrthgyrff, IFN-gama neu Actiphage i gynyddu sensitifrwydd.
- Roedd rhai o'r farn bod angen y cydbwysedd cywir rhwng sensitifrwydd a chywirdeb, ac nad yw manteision mwy o sensitifrwydd yn cyfiawnhau mwy o ganlyniadau positif ffug.
- Pryderon ynghylch yr iawndal y bydd yn rhaid ei dalu am y nifer cynyddol o anifeiliaid fydd yn cael canlyniad positif.
- Yr effaith ar adnoddau milfeddygol i reoli'r nifer cynyddol o achosion o TB.
- Mae angen modelu i ystyried manteision gwahanol gyfuniadau o brofion; dylai fod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, gyda dadansoddiad o'r manteision a'r gost.
- Gall canlyniadau positif ffug fod yn anghymarus â'r manteision o ran cost.
- Bydd cynnal prawf interfferon-gama hefyd yn helpu i ganfod mwy o anifeiliaid heintiedig a lleihau'r risg o drosglwyddo clefydau drwy symudiadau.
- Bydd dehongliad llym o Brofion ar ôl Symud yn golygu na chaiff anifeiliaid sydd wedi cael adwaith amhendant yn cael eu gwerthu gan leihau'r risg o ledaenu TB.
- Mae angen neilltuo mwy o arian ar gyfer ymchwil i wella sensitifrwydd profion heb gynyddu canlyniadau positif ffug.
- Credwn fod llwyddiant unrhyw system o reoli TB gwartheg yn seiliedig ar ein gallu i ganfod presenoldeb yr haint, yn bennaf ar lefel y fuches ond hefyd

mewn anifeiliaid byw unigol. Mae'n hanfodol deall y cyd-destun a phennu nodau clir cyn ystyried pa brawf neu brofion y dylid eu defnyddio. Wrth ddehongli profion ar anifail unigol (gwerth rhagfynegol positif neu negatif) mae'n bwysig ystyried faint o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau TB, yn ogystal â sensitifrwydd a phenodolrwydd y prawf. Mae gan wahanol brofion eu cryfderau a'u gwendidau sy'n pennu eu haddasrwydd i sefyllfaoedd gwahanol.

- Bydd newid i ddefnyddio dehongliad mwy sensitif ond llai penodol o'r SICCT yn canfod mwy o anifeiliaid heintiedig yn ogystal â mwy o ganlyniadau positif ffug. Fodd bynnag, yn y pwynt hwn o'r broses o reoli a dileu TB gwartheg, mae'n werth ceisio blaenoriaethu sensitifrwydd profion statudol cyn ac ar ôl symud er mwyn datgelu haint.
- Mae profion IFN-gama bellach yn rhan allweddol o raglenni TB pedair gweinyddiaeth y DU. Dylai'r Llywodraeth adeiladu ar y llwyddiant hyd yma a pharhau i ariannu a chyflwyno'r prawf IFN-gamma fel atodiad mwy sensitif i'r SICCT ac archwilio'r potensial ar gyfer ei ddefnyddio'n ehangach fel rhan o'r drefn brofi, gan gynnwys fel prawf cyn ac ar ôl symud. Mae mantais hefyd i ddefnyddio'r profion gwaed gwrthgyrff a ddilyswyd gan yr OIE (IDEXX neu Enferplex). Gall defnyddio prawf gwahanol ochr yn ochr â'r SICCT ganfod is-set wahanol o'r boblogaeth heintiedig, felly mae sensitifrwydd y ddau brawf gyda'i gilydd yn debygol o fod yn fwy'r profion ar eu pennau eu hunain.
- Credwn nad yw'r prawf croen presennol yn ddigonol ar lefel anifeiliaid unigol a'i fod ond yn rhoi syniad cywir a yw'r fuches wedi'i heintio neu beidio. Byddem yn argymhell yn gryf defnyddio prawf mwy sensitif ar gyfer anifeiliaid unigol gan y bydd canlyniadau symud anifeiliaid heintiedig heb eu canfod i fuches ddi-haint yn anferth.

C9 Os yw profion gwaed (gama neu IDEXX) yn cael eu defnyddio fel Prawf Cyn Symud, ydych chi'n cydnabod y bydd cost ychwanegol i'r broses brofi o bosibl, na allai'r Llywodraeth ei thalu? Esboniwch eich rhesymau.

Er i'r rhan fwyaf o ymatebwyr gytuno â'r datganiad hwn, roedd y sylwadau'n dangos barn gymysg o ran pwy ddylai dalu'r gost; dywedodd y mwyafrif mai ffermwyr ddylai wneud, ond barn y lleill oedd y dylid rhannu'r gost rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant. Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn credu hefyd y byddai ei wneud yn ofyn ar ffermwyr i dalu yn annog arferion prynu doethach, gwell bioddigolwch, newid ymddygiad a lefelau cydymffurfio gwell.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai fod yn bosib rhannu rhywfaint o'r gost fesul achos os gallai'r ffermwr brofi iddo geisio rheoli'r clefyd a gwella bioddigolwch. Roedd rhai o'r farn y byddai diffyg penodolrwydd profion gwaed, o'u defnyddio fel Profion cyn Symud, yn arwain at roi nifer fawr o fuchesi o dan gyfyngiadau ac y byddai llai o gydymffurfio ac o ffydd yn y system. Roedd rhai yn pryderu am effaith polisi o'r fath ar ganlyniadau positif ffug ond roeddent yn deall y manteision ymarferol, megis dim ond gorfod crynhoi'r anifeiliaid i'w profi unwaith.

Cyfeiriodd rhai at benderfyniad y Llywodraeth i wrthod mynd i'r afael â TB mewn bywyd gwyllt ac i roi mwy a mwy o gyfyngiadau ar geidwaid gwartheg. Mae rhai'n teimlo bod hynny'n aneffeithiol pan ganiateir i'r gronfa TB mewn bywyd gwyllt barhau.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Byddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar ffermwyr i dalu am brofion, gan effeithio ar iechyd meddwl.
- Cydnabod bod i Brofion cyn Symud fanteision ehangach na dim ond i'r ffermwyr dan sylw.
- Rhai'n teimlo na ddylid defnyddio'r math hwn o brawf fel Prawf cyn Symud ac y dylid defnyddio Actiphage yn ei le.
- Dylid ei gadw yr un pris â'r prawf croen.
- Os bydd y Llywodraeth yn gorfodi'r mesur hwn – y Llywodraeth ddylai talu amdano; os yw ffermwr yn dewis cynnal y prawf – y ffermwr ddylai talu.
- Penderfyniad y ffermwr yw symud gwartheg ar gyfer eu gwerthu, felly mae'n fantais i'r ffermwr dalu'r gost fel buddsoddiad hirdymor. Mae TB yn risg i fusnes felly y diwydiant ddylai ysgwyddo'r gost o'i reoli, drwy yswiriant er enghraifft.
- Mae ffermio'n fusnes ac ni ddylai ffermwyr ddibynnu bob amser ar y Llywodraeth am gymorth.
- Pryder am gapasiti labordai a'r amser y mae'n ei gymryd i gyhoeddi canlyniadau.
- Gallai cymell ffermwyr i fasnachu'n ddiogel ac i gynnal bioddiogelwch da ac arferion lles anifeiliaid da fel ffyrdd o reoli costau cynyddol cynnal profion gwaed ychwanegol.
- Pryderon ynghylch IFN-gama ar ei ben ei hun, oherwydd problemau â sensitifrwydd, ond ar y cyd â SICCT byddai'n cynyddu'r gost i'r ffermwr.
- Dylai'r Llywodraeth ysgwyddo'r costau hyn er mwyn cynyddu cyfranogiad a hyder ffermwyr.
- Dylid ond cynnal profion IFN-gama i brofi achosion difrifol o TB.
- O ran Profion cyn Symud, dylid cynnal ymchwiliad trylwyr (gan gynnwys dadansoddiad o gost a budd) i ystyried pa Brawf cyn Symud fyddai fwyaf priodol. Mae angen ystyried pa brawf croen, a ddylid defnyddio'r dehongliad llym neu safonol neu a fyddai prawf arall yn fwy priodol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae angen ystyried effaith newid y prawf ar y prynwr, y gwerthwr a symudiadau o fewn y busnes (lle mae angen Prawf cyn Symud). Dylai grŵp cynghori technegol sy'n cynnwys aelodau o'r proffesiwn ffermio a milfeddygol ystyried yr opsiynau'n fanylach.
- Mae profion IFN-gama bellach yn rhan allweddol o raglenni TB gwartheg pedair gweinyddiaeth y DU. Dylai'r Llywodraeth adeiladu ar y llwyddiant hyd yma a pharhau i ariannu a chyflwyno'r prawf IFN-gamma fel atodiad mwy sensitif i'r SICCT ac archwilio'r potensial ar gyfer ei ddefnyddio'n ehangach fel rhan o'r drefn brofi, gan gynnwys fel prawf cyn ac ar ôl symud.
- Byddai defnyddio profion gwaed fel profion cyn symud, oherwydd eu diffyg manylder, yn arwain at anhrefn.

C10 A ydych yn cytuno â'r gofyniad cyfreithiol i ffermwyr beidio â symud gwartheg rhwng diwrnod prawf 1 (diwrnod y pigiad a elwir yn TT1) a diwrnod prawf 2 (diwrnod darllen y prawf a elwir yn TT2) a rhwng profion gwaed a derbyn canlyniadau. Esboniwch eich rhesymau.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Teimlwyd y byddai'n gam rhesymegol a synhwyrol i rwystro'r clefyd rhag lledaenu. Roedd llawer yn credu bod y gofyniad eisoes yn ei le. Dywedodd ymatebwyr y gallai symud gwartheg cyn cyhoeddi canlyniadau profion fod yn wrthgynhyrchiol gan danseilio'r mesurau cadw golwg.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dylid caniatáu eithriadau am resymau lles ac i symud gwartheg i'w lladd os oes slot wedi'i archebu ymlaen llaw, a dylid ystyried caniatáu ar gyfer marwolaethau a damweiniau rhwng dyddiadau profion a derbyn canlyniadau.
- Dywedodd un neu ddau o'r ymatebwyr os oes slot wedi'i archebu i ladd anifail, ni ddylid cadw'r anifail nes daw'r canlyniadau rhag effeithio ar y llif arian.
- Pryderon ynghylch ailsamplu profion gwaed a'r oedi yn sgil hynny wrth aros am y canlyniadau.
- Dylai fod gan Gronfa Ddata Anifeiliaid Fferm Cymru ryw ffordd o nodi bod anifail wedi cael prawf, ond ei fod yn aros am y canlyniad.

C11 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ehangu'r gwaharddiadau yng Ngorchymyn TB (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) i gynnwys y gofyn i gael caniatâd i gasglu sampl at ddibenion profion TB neu gynnal prawf ar sampl? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn o ddeall ei fod yn hanfodol ar gyfer rheoli clefydau a monitro a chyfathrebu'n effeithiol sy'n hollbwysig ar gyfer rheoli a dileu clefydau. Roedd llawer yn cytuno y dylai'r broses gael ei goruchwyllo a'i rheoli'n ganolog a theimlent y byddai samplu preifat heb awdurdod yn cymhlethu pethau. Cafwyd awgrym mewn rhai ymatebion nad oedd dealltwriaeth gyson o'r cwestiwn o ran categori'r prawf (h.y. profion heb eu dilysu neu brofion preifat) a'r person(au) sy'n rhoi'r caniatâd (h.y. y Llywodraeth neu ffermwr).

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn credu ei bod eisoes yn ofyn hysbysu'r awdurdodau o'r canlyniadau ac nad oedd angen y ddarpariaeth. Teimlai rhai y gallai effeithio ar allu milfeddygon i ysgwyddo cyfrifoldeb am fuchesi eu cleient os na chânt ddefnyddio offer newydd ac na ddylai ymgynghori estynedig â swyddogion fod yn rhan o'r broses o gynnal profion diagnostig. Roedd rhai hefyd yn teimlo y byddai'n annog ffermwyr i beidio â phrofi anifeiliaid yn breifat am resymau unigol ac y dylid ystyried cynnydd mewn profion yn sefyllfa gadarnhaol, ond cydnabu fod yn rhaid rhannu'r canlyniadau â Llywodraeth Cymru/APHA. Dywedodd cyfran o'r ymatebwyr y byddai'n well wrth ragor o gydweithredu rhwng darparwyr profion preifat, ffermwyr, milfeddygon a Llywodraeth Cymru.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Rhaid i'r drefn brofi a chofnodi fod yn dryloyw a rhaid i'r corff rheoleiddio gael gweld y canlyniadau.
- Mae'r cynnig yn atal pobl rhag cuddio clefydau oddi wrth y Llywodraeth.
- Ar gyfer clefydau hysbysadwy, dim ond labordai cymeradwy ddylai gael profi a rhaid cofnodi canlyniadau, a gosod cyfyngiadau ar y fuches yn ôl y gofyn.
- Dylai ffermwyr fod yn rhydd i brofi am unrhyw glefyd heb ymyrraeth y Llywodraeth, ar sail cyngor y milfeddyg preifat.
- Dylid cymeradwyo, cofnodi a gweld deunydd ar un plattform, fel yr unig ffordd o gael darlun llawn.
- Dylai fod gan ffermwyr yr hawl i dalu am brawf annibynnol. Mae angen i ffermwyr allu cadw rheolaeth ar eu busnesau.
- Mae anifeiliaid eisoes yn cael eu trafod am resymau eraill – mae hynny'n gyfle i gymryd sampl. Gellir gofyn am ganiatâd yn nes ymlaen.
- Roedd rhai'n gweld y cynnig yn cyfyngu ar ymchwil, ar syniadau rhagweithiol ac ar gyfle i gynnal profion newydd, lle gallai ffermwyr roi cynnig ar brofion newydd ar ei gost ei hun gan ddefnyddio'r canlyniadau i ymchwilio i TB.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda milfeddygon (ac unrhyw rai eraill a allai fod yn cymryd ac yn profi samplau o'r fath) i sicrhau bod y broses o geisio'r caniatâd hwn yn syml ac yn ddi-fiwrocraidaidd ac nad yw'n rhwystro cynhyrchwyr rhagweithiol a'u milfeddygon rhag cynnal profion TB ychwanegol ar eu ffermydd.
- Mae angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ganlyniadau'r holl brofion TB yng Nghymru. Ond, mae'r gofyniad cyfreithiol hwn yn mynd yn rhy bell a gall annog ffermwyr i beidio â phrofi anifeiliaid yn breifat am resymau unigol. Dylid ystyried bod unrhyw gynnydd mewn profion yn beth da er y dylid rhannu canlyniadau'r profion hyn â Llywodraeth Cymru/APHA.

Prynu Gwybodus

C12 (a) Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sydd wedi'u disgrifio ar gyfer:

Ychwanegu map newydd at ibTB yn dangos nifer y blynyddoedd y mae buchesi gwartheg heb gyfyngiadau wedi bod yn fuchesi sydd â statws heb TB swyddogol (OTF)

Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth mwyafrif llethol yr ymatebwyr a'i gwelai fel gwybodaeth bwysig a ddylai fod ar gael i brynwyr ac a fyddai'n gam cadarnhaol i alluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus yn y man gwerthu. Barnwyd y byddai o fudd i'r diwydiant ac y byddai'n sbarduno prynu ar sail risg.

Pwysleisiwyd, fodd bynnag, na welid y manteision hyn heb fod y prynwyr yn gweithredu ar y wybodaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd bod gofyn i'r wybodaeth fod ar gael yn rhwydd i bawb, waeth beth yw lefel eu sgiliau TG, a rhaid i'r wybodaeth fod yn gyfoes ar y diwrnod gwerthu. Dywedodd cyfran fach o'r ymatebwyr y dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael i geidwaid cofrestredig yn unig, trwy fewngofnodi a chyda chyfrinair. Yr un oedd ymateb cefnogol llawer o'r ymatebwyr i C12a a C12b. Roedd rhai o'r farn bod angen trafod â rheolwyr marchnadoedd, arwerthwyr a gwerthwyr preifat i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei

darparu'n gyson ar draws y gwahanol ddulliau gwerthu. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch diogelu data a GDPR yn fwy cyffredinol.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dylai hyfforddiant fod ar gael drwy TBAS (Gwasanaeth Cynghori ar TB) neu wasanaeth tebyg.
- Byddai ap hawdd ei ddefnyddio yn ddefnyddiol.
- Gyda'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd, gallai hynny sbarduno ceidwaid i reoli'r sefyllfa o ran TB ar eu fferm.
- Dylid hyrwyddo'r defnydd o'r wefan; dylai fod yn ffordd i brynwyr allu cael hyd i wybodaeth yn hawdd.
- Bydd arddangos gwybodaeth o'r fath yn gwneud y farchnad yn rhy gystadleuol.
- Bydd yn amharu ar breifatrwydd perchnogion; perygl i'r wybodaeth gael ei defnyddio'n amhriodol. Cyfrifoldeb y prynwr yw cael gwybod gan y gwerthwr beth yw ei statws TB, ac os nad yw'r gwerthwr yn barod neu'n fodlon ei ddatgelu, yna mater i'r prynwr yw penderfynu a yw am fynd yn ei flaen neu beidio.
- Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr ynghylch cymesuredd y dull hwn pe bai gan fuches un anifail positif yn unig, neu ar gyfer buchesi â chlefyd heb ei gadarnhau.
- Dylid defnyddio Porth y Llywodraeth a RPW Ar-lein gyda chyfrinair; ni ddylai data fod ar gael yn rhwydd i bobl nad oes ganddynt fwriad i'w defnyddio at eu diben gwreiddiol.
- Mae gan y prynwr bob hawl i gael y wybodaeth a roddir iddo yn y man gwerthu.
- O ran nodi ar ibTB nifer y blynyddoedd y mae buches wedi bod ddi-TB, teimlwn fod y data hyn ar gael yn rhwydd eisoes ac y dylid felly eu hymgorffori i sicrhau bod gan ddarpar brynwyr gymaint o wybodaeth â phosibl, iddynt allu dewis yn wybodus.

Q12 (b) Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sydd wedi'u disgrifio ar gyfer:

- Ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu

Rhoddodd llawer o ymatebwyr yr un ateb i C12a a C12b. Roedd y mwyafrif llethol o blaid y cynnig hwn ac yn teimlo ei fod yn hanfodol, y byddai'n rhwystro arferion prynu peryglus, y byddai'n gwella tryloywder, yn cefnogi masnachu effeithiol ar sail risg drwy ganiatáu i ffermwyr wneud dewisiadau gwybodus ac yn eu hannog i roi mwy o sylw i reoli clefydau ar eu ffermydd neu fentro gweld prisiau eu stoc yn gostwng.

Roedd rhai yn ei weld yn amhrisiadwy yn y frwydr yn erbyn y clefyd. Roedd rhai o'r farn y dylid graddio buchesi ac anifeiliaid yn ôl lefel eu risg ac y dylid darparu'r wybodaeth hon yn y man gwerthu er mwyn hysbysu'r ffaith y gallai fod buchesi risg isel ac anifeiliaid risg isel mewn ardaloedd risg uchel, ac i'r gwrthwyneb. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid defnyddio'r systemau presennol, megis EID Gwartheg, i arddangos y wybodaeth. Roedd rhai yn pryderu am effaith y cynnig hwn ar fusnesau sy'n dioddef yn rheolaidd gan TB ac yn credu bod angen cynnal hyder prynwyr a

gwerthwyr yn y system. Roedd rhai'n teimlo y dylai prynwyr gael at wybodaeth ychwanegol ond y dylai gwerthwyr gael help ariannol ac ymarferol i gadw TB draw. Roedd rhai o'r farn y gellid rhoi rhagor o wybodaeth na'r hyn a awgrymir yn yr ymgynghoriad yn y man gwerthu. Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo y dylai Prawf cyn Symud dilys fod yn ddigon.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Byddai'n ddefnyddiol hefyd wrth ddelio â chlefydau eraill, fel BVD neu Johne's.
- Mae angen ap i gofnodi manylion gwerthiannau rhwng ffermydd hefyd, neu bydd perygl gwrthio'r broblem i rywle arall.
- Mae perygl i rai masnachwyr a gwerthwyr gael eu gadael allan, neu roi rhai gwerthwyr o dan anfantais.
- Pryderon, os na chaiff hyn ei gyflwyno yn Lloegr, y bydd ceidwaid yn mynd â gwartheg i farchnadoedd yn Lloegr lle nad yw'r wybodaeth yn cael ei harddangos, gan ledaenu'r clefyd fel hynny.
- Rhaid deall yr wybodaeth yn rhwydd a chyflym mewn amser byr yn ystod arwerthiant, a rhaid iddi fod yn gyfredol ar y diwrnod gwerthu – yn ddelfrydol daw o gronfa ddata ganolog.
- Dim ond yr amser ers yr achos diwethaf o TB a dyddiad y prawf diwethaf ar y fuches y dylid eu harddangos.
- Mae cyfathrebu da ag arwerthwyr yn hanfodol er mwyn rhoi'r cynnig hwn ar waith yn y ffordd orau bosibl.
- Rhaid i'r data fod yn gyfredol ac yn amserol ac mae angen ystyried yn ofalus sut mae cyflwyno data.
- Gellir ystyried hefyd arddangos manylion unrhyw brofion ychwanegol a roddir i'r fuches, pa rai, a dyddiad y prawf diwethaf; hefyd, a yw'r anifeiliaid yn tarddu o fuchesi risg uwch a'r tro diwethaf i anifeiliaid o'r fath gael eu cyflwyno i'r fuches.

C13 .Yn y dyfodol, a ydych yn credu y dylai fod goblygiadau ar gyfer ceidwaid gwartheg sy'n anwybyddu gwybodaeth am TB, ac yn prynu anifeiliaid waeth beth fo'r risgiau a amlygwyd? Esboniwch eich rhesymau. Beth ddylai natur y goblygiadau fod yn eich barn chi?

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynnig, roedd y farn yn gymysg. Roedd llawer yn cytuno fod mesurau gwirfoddol yn aneffeithiol. Roedd llawer hefyd o'r farn na ddylai'r trethdalwr ysgwyddo cost canlyniadau arferion prynu peryglus. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn pryderu am y farchnad ar gyfer gwerthu gwartheg o Ardaloedd TB Uchel. Cyn belled â bod yr anifeiliaid hyn wedi cael Profion cyn ac ar ôl Symud a bod y ceidwad wedi gwneud popeth yn ei allu i leihau'r risg, ni ddylai'r prynwr gael ei gosbi.

Mynegwyd pryder ynghylch cymhlethdod gweithredu polisi o'r fath, o ble daw'r dystiolaeth a sut y câi ei blismona, ac os caiff ei roi ar waith, dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau. Roedd rhai o'r farn y dylid canolbwyntio ar roi cyngor ac arweiniad yn ogystal â gwybodaeth am statws gwartheg, Byddai hynny'n cael mwy o effaith o ran annog ceidwaid i wneud y penderfyniadau prynu cywir.

O ran y goblygiadau, awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig y dylid rhoi llai o iawndal i'r rheini sy'n anwybyddu gwybodaeth am TB. Y farn wedyn, yn y drefn hon, oedd y dylai ffermwyr dalu am unrhyw brofion ychwanegol sy'n rhaid eu cynnal o ganlyniad i brynu peryglus, y dylid eu cosbi, neu ni ddylent gael unrhyw iawndal. Dywedodd rhai bod angen egluro'r goblygiadau'n glir ymlaen llaw, pa rai bynnag a ddewisir. Dywedodd rhai hefyd y byddai'n annheg cosbi ceidwaid a oedd yn ei chael hi'n anodd cael gwared ar TB o'u buches. Roedd rhai o'r farn y dylid datgelu hanes TB yn llawn ym mhob ardal, gan gynnwys gwybodaeth am ffermydd heb gyfyngiadau sy'n agos i achosion o TB.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dylai cyfyngiadau masnachu gael eu rhoi ar y rheini sy'n torri'r rheolau dro ar ôl tro a dylen nhw gael eu gwahardd rhag cael cadw gwartheg.
- Rhaid i geidwaid gwartheg fod yn atebol am anwybyddu mesurau ar gyfer lleihau lledaeniad y clefyd.
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod addysg yn bwysicach na chosbi.
- Nid oes gan rai pobl ddewis ond prynu o ardaloedd risg uchel i barhau â'u busnes gan mai dim ond mewn ardaloedd risg uchel y mae stoc o ansawdd da ar gael weithiau.
- Mae perygl y bydd y mesur hwn yn creu marchnad ddwy haen lle na fydd stoc o fuchesi di-TB yn gallu cael eu gwerthu oherwydd hanes bod TB yn yr ardal o'u cwmpas.
- Awgrymwyd sefydlu gweithgor i drafod masnachu ar sail risg cyn gwneud unrhyw gynigion.
- Bydd y cynnig hwn yn debygol o wynebu heriau cyfreithiol.
- Mae'r diwydiant llaeth a chig eidion yn dibynnu ar symud gwartheg ac ar farchnad (gymharol) rydd. Ni ddylai fod unrhyw oblygiadau.
- Dylai ceidwaid gwartheg allu prynu'n wybodus a dylent wneud hynny drwy brynu ar sail risg. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai fod goblygiadau i geidwaid gwartheg sy'n prynu gwartheg sy'n cael eu hystyried yn "beryglus" gan Lywodraeth Cymru/APHA.
- Os yw ceidwad gwartheg wedi gwneud popeth yn ei allu i leihau'r risg y caiff ei wartheg eu heintio â TB a'i fod wedi cydymffurfio â'r holl brofion, nid yw'n deg bod Llywodraeth Cymru yn cosbi darpar brynwyr. Rydym yn dadlau bod rhoi cyngor ac arweiniad yn ogystal â gwybodaeth am statws gwartheg sydd ar werth yn cael mwy o effaith o ran annog ffermwyr i wneud y penderfyniad cywir er lles eu busnes.
- Rydyn ni'n cefnogi ehangu'r polisiau 'ennill cydnabyddiaeth' drwy bolisi iawndal a phrofi.
- Bydd pawb ar ei ennill yn yr hir dymor o beidio â phrynu anifeiliaid risg uwch (ac is eu cost, fwy na thebyg) heb gymryd camau effeithiol i leihau'r risg. Mae'r ffaith bod camau gorfodi wedi cael eu cymryd yn y gorffennol yn erbyn ffermwyr yng Nghymru sy'n camliwio statws eu gwartheg neu ganlyniadau profion, yn dangos yn glir bod rhai ffermwyr yn fodlon peryglu statws di-TB gwartheg yng Nghymru. Dim ond camau gorfodi cryf a goblygiadau clir am anwybyddu gwybodaeth am TB a all sicrhau fod pob ceidwad gwartheg yn

dilyn y rheolau ac felly'n sicrhau bod buches Cymru yn symud tuag at statws heb TB.

Talu am wartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB

C14 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cysylltu'r broses o wneud taliadau TB â chyflwyno arferion atal a rheoli'r clefyd. Beth yw'ch barn am hyn?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno ac yn dweud y byddai'n ffordd deg, hanfodol, synhwyrol, cywir a rhagweithiol ymlaen. Roedd llawer o'r farn ei fod yn gynnig gan Lywodraeth Cymru y dylid ei groesawu, yn gwbl angenrheidiol, y bu disgwyl mawr amdano ac yn fawr ei angen i annog busnesau fferm i ddeall ac arfer bioddiogelwch cadarn. Dywedodd llawer hefyd ei fod yn gwneud synnwyr economaidd a busnes da a thynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o ffermwyr eisoes yn dilyn arferion da, felly ni ddylai fod yn broblem. Teimlai rhai nad oedd yn iawn i'r trethdalwr wneud iawn am ymddygiad prynu gwael.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid atal taliadau fel cosb am beidio â chydymffurfio ac y dylid gwobrwyo ymddygiad da. Awgrymodd rhai fod cynlluniau achredu yn ffordd ymlaen ac nad oes digon o gymhelliant ar hyn o bryd i atal arferion bioddiogelwch gwael. Roedd lleiafrif yn teimlo nad ffermwyr sy'n gyfrifol am ledaenu'r clefyd. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch natur mesurau atal a rheoli clefydau a bod gofyn i fesurau fod yn hawdd eu mabwysiadu, yn gost-effeithiol ac yn synhwyrol. Mynegwyd pryderon hefyd bod oedi weithiau (h.y. wrth gymryd adweithyddion o'r fferm) ar ochr Llywodraeth Cymru/APHA, sydd y tu allan i reolaeth y ffermwr ac na ddylid cosbi ffermwyr am hynny. Roedd rhai o'r farn, gan nad oes modd mesur risgiau'n gywir ar safleoedd unigol, ei bod yn amhriodol cysylltu arferion atal a rheoli clefydau â thaliadau TB. Teimlai lleiafrif nad oedd fawr o ddiben gweithredu'r cynnig hwn heb roi sylw i fywyd gwyllt.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Bydd yn rhoi mwy o bwysau ar ffermwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardal lle mae TB yn gyffredin ac nad nhw sydd ar fai am sefyllfa'r clefyd.
- Gall cosbi ymddygiad gwael arwain at guddio troseddau, felly mae angen monitro a rheoleiddio.
- Dylai hwn fod yn fesur i ddelio ag ailheintiadau yn unig.
- Dylai ffermydd gael eu graddio yn ôl eu bioddiogelwch a'u rheolaeth ar slyri.
- Rhaid wrth drefn apelio gadarn.
- Dim sôn am leihau iawndal i bobl sy'n cadw anifeiliaid heblaw gwartheg.
- Un ymatebydd yn teimlo na fydd cysylltu taliadau TB ag atal clefyd byth yn llwyddo.
- Mae angen i arferion bioddiogelwch fod yn glir ac yn drylwyr, ac yn hawdd eu mesur i benderfynu pwy sy'n glynu wrth yr egwyddorion arfer gorau.
- Mae gwobrwyo symudiadau gwartheg cyfrifol yn fwy o gymhelliant na chosbi.
- Mae llawer o ffermwyr yn addasu eu seilwaith i wella bioddiogelwch ac maent yn dal i ddal y clefyd, felly mae'n annerbyniol cysylltu taliadau â mesurau atal.
- Mae'n amhosibl rheoli symudiadau bywyd gwyllt ar dir pori; mae adwerthwyr a'r cyhoedd yn mynnu bod gwartheg yn pori am gyfnod o'r flwyddyn.

- Mae angen rhoi help a chyngor yn gyntaf cyn ystyried cosbi; dylai cosbau fod ar gyfer troseddwy'r sy'n aildroseddu.
- Er ein bod yn gwybod beth yw'r ffactorau sy'n lledaenu TB, fel arfer mae'n amhosibl dod o hyd i achos y TB yn hyderus. Mae hi'n dal yn anodd mesur y risgiau'n gywir ar safleoedd unigol, felly ni fyddai'n briodol cysylltu hynny â thaliadau TB.
- Rydyn ni o blaid gwobrwyo ymddygiad cyfrifol fel arferion atal a rheoli clefydau y tu hwnt i symudiadau cyfrifol.
- Gall y Llywodraeth gynnig rôl i filfeddygon gymeradwyo mesurau priodol. Mae milfeddygon preifat yn gynghorwyr dibynadwy i ffermwyr ac mewn sefyllfa unigryw i gynnig cyngor. Dylai'r Llywodraeth sicrhau na ddylai monitro'r cynnig hwn danseilio'r berthynas honno mewn unrhyw ffordd.

C15 A ydych yn cytuno/anghytuno ag unrhyw un o'r 3 chynnig a ddisgrifir yn adran 7 ? Esboniwch eich rhesymau.

Cymysg oedd y farn gafwyd am y 3 chynnig. Roedd rhai'n teimlo y byddai tablau prisio yn annheg gan na fyddai talu gwerthoedd cyfartalog gwartheg yn annog ceidwaid i fuddsoddi yng ngeneteg eu stoc nac mewn rhaglenni bridio gofalus. Fodd bynnag, roedd nifer o unigolion o blaid y tablau prisio gan eu bod yn syml i'w gweithredu a'u deall – cyn belled â'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu data diweddaraf marchnadoedd. Dywedodd rhai hefyd trwy ddefnyddio tablau prisio, y gellir mynd ag anifail sydd wedi adweithio i brawf TB o'r fferm yn gynt. Roedd rhai o'r farn y byddai talu atodiad am fod yn aelod o gynllun achredu yn decach na thalu prisiad y tabl yn unig, ond mynegwyd pryderon nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod bod yn aelod o'r cynlluniau hyn yn helpu i ddileu TB.

Roedd rhai o'r farn y byddai ardoll y diwydiant yn dda yn y tymor hwy gan y byddai'n golygu bod y diwydiant yn rhannu rhywfaint o'r cyfrifoldeb. Roedd un ymatebydd o'r farn, fodd bynnag, nad oedd modd cymharu'r cynnig ar gyfer ardoll yn uniongyrchol â'r system yn Seland Newydd. Dywedodd un arall fod angen mwy o fanylion am y system yn Seland Newydd i allu ffurfio barn. Yn ôl rhai, law yn llaw â chyflwyno system talu iawndal tebyg i system Seland Newydd, byddai angen i ffermwyr gael cyfrannu at lunio polisi dileu gwell. O ran lefel y gefnogaeth i bob opsiwn, yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd Opsiwn C, sef grŵp annibynnol o dan arweiniad y diwydiant, gyda'r diwydiant yn talu ardoll a chyda'r pŵer i ddwyn ffermwyr i gyfrif, a chanllawiau a chylch gorchwyl clir gan Lywodraeth Cymru. Yna Opsiwn B, sef prisiad tabl gan dalu atodiad i aelodau cynllun achredu, Ac â'r gefnogaeth leiaf i'r olaf, prisiad tabl yn unig (opsiwn A). O'r ymatebion cyfunol a gyflwynwyd gan rai cyrff milfeddygol, roedd y mwyafrif yn cytuno ag opsiwn A, gydag opsiwn B ac opsiwn C yn cael y gefnogaeth leiaf. Roedd cyfran o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r tri opsiwn ac am gadw'r system brisio gyfredol.

Roedd dau ymatebydd yn cytuno â'r tri opsiwn.

Roedd rhai'n credu y gellid tynhau'r trefniadau llywodraethu fel bod panel yn monitro prisiadau. Mynegwyd pryderon gan y proffesiwn milfeddygol y byddai unrhyw symudiad at dabl brisio yn cael effaith andwyol ar rôl y milfeddyg preifat a'i berthynas

â'i gleientiaid, a'i fod yn debygol o effeithio ar les y milfeddyg sy'n cynnal y prawf oherwydd ymateb dig y ffermwr a'r straen a roddir arno, er ei bod yn amheus a fyddai'r straen hwn yn dylanwadu ar ganlyniadau'r profion. Tynnodd rhai sylw at effaith emosiynol/iechyd y cynnig hwn ar ffermwyr a'u teuluoedd.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Nid yw prisiau tabl yn gwella safonau gan nad ydyn nhw'n gwobrwyo arfer gorau ac maen nhw'n caniatáu i arferion gwael barhau.
- Mae prisiau tabl yn talu llai na'u gwerth am stoc dda, yn talu gormod am stoc wael, ac yn dyddio'n gyflym gan fod y farchnad yn newid trwy'r amser.
- Mae bod yn aelod o gynllun sicrwydd/achredu yn syniad da, ond dylai fod yn arfer safonol ac ni ddylid ei wobrwyo. Dylid lleihau'r taliad os nad yw ceidwad yn aelod.
- Dylai'r system ganolbwyntio ar gosbi ymddygiad gwael.
- Dylai'r diwydiant cyfan dalu'r ardoll, ond efallai na fydd yr iawndal a delir i ganran fach yn gymesur.
- Roedd dau o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn annheg disgwyl i ffermwyr gyfrannu at eu digolledi eu hunain.
- Teimlai un ymatebydd y byddai opsiwn C yn agored i gamddefnydd a goddrychedd ac y byddai'n rhaid ei reoleiddio a'i fonitro'n ofalus.
- Mae'r grŵp annibynnol (opsiwn C) yn rhy gymhleth a bydd angen amser i'w weithredu.
- Awgrymodd un person y byddai angen trefn apelio gadarn ar gyfer eithriadau.
- Dywedodd un person nad oedd digon o iawndal yn cael ei dalu ar hyn o bryd.
- Byddai Opsiwn C yn ychwanegu haen o gost.
- Mae Opsiwn B yn dderbyniol, ond roedd pryderon ynghylch ymweliadau arolygu blynyddol oherwydd y budd masnachol rhwng yr arolygydd a'r ceidwad.
- Os dewisir opsiwn C, yna dylai'r diwydiant gael mwy o ddylanwad ar lunio polisiâu.
- Dylai'r diwydiant a Llywodraeth Cymru addysgu ffermwyr am fanteision cynlluniau achredu, ond ni ddylent fod yn sail ar gyfer talu iawndal am wartheg sy'n cael eu lladd oherwydd TB.
- Byddai Opsiwn C yn arwain at y diwydiant yn rhannu cyfrifoldeb ac efallai mai dyma'r ffordd ymlaen yn y tymor hwy. Ar gyfer y dyfodol agos, mae Opsiwn B yn well nag Opsiwn A. Dylai'r arian a arbedir gael ei ailfuddsoddi i reoli TB gwartheg.
- Nid yw'n deg i'r busnesau sy'n perfformio'n well nac i'r trethdalwr bod y system yn sybsideiddio perfformiad gwael.
- Os dewisir system tablau prisio, yna dylai'r system roi o leiaf rhywfaint o ystyriaeth i ansawdd, cyflwr a natur gynhyrchiol yr anifail.
- Rydym yn cefnogi trefn sy'n gwobrwyo ymddygiad cyfrifol drwy system o 'ennill cydnabyddiaeth' sy'n ystyried pob agwedd ar y rhaglen reoli gan gynnwys iawndal. Felly, byddem o blaid ystyried yr agwedd ar yr ail gynnig a ddisgrifir yn adran 7 lle byddai bod yn aelod o gynllun achredu iechyd anifeiliaid cymeradwy yn arwain at daliad uwch.
- Credwn fod y trydydd opsiwn yn apelio am ei fod yn caniatáu i'r diwydiant osod ei reolau a'i ganllawiau ei hun o fewn trothwyon penodol y mae'n rhaid

eu dilyn. Argymhellwyd hyn hefyd gan Syr Charles Godfray yn 2018 ac mae'n ymddangos iddo gael rhywfaint o lwyddiant yn Seland Newydd. Serch hynny, os na ddewisir yr opsiwn hwn, credwn y byddai'r ail opsiwn yn cynnig cydbwysedd da rhwng rhoi dewis o gynlluniau i'r diwydiant fod yn aelodau ohonynt, tra'n sicrhau trosolwg o gynlluniau achredu i sicrhau cydbwysedd cyffredinol rhwng yr hyn a ddisgwylir gan gynhyrchwyr ac y gofynnir iddynt ei wneud.

- Prisiadau tabl yw'r opsiwn gorau. Mae'n syml, ac yn lleihau cost y prisiadau hefyd. Byddai hefyd yn creu telerau talu gweddol gyfartal â Lloegr.
- Ofn y bydd yn lladd diddordeb milfeddygon mewn profion hyd yn oed yn fwy. Os ydych chi am weld profion o ansawdd gyson uchel fel asgwrn cefn eich rhaglen brofi, byddai'n ddoeth ichi ystyried lles y milfeddygon hefyd.
- Mae'r system bresennol yn talu gwerth y farchnad, felly bydd y rhai sydd â stoc wael yn cael pris gwael, tra bydd y rhai sydd â stoc dda yn cael eu digolledu'n briodol. Cytunwyd ar y drefn hon flynyddoedd lawer yn ôl a chyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn iawn, mae'n deg i bawb.
- Bydd newid i system dablau neu system gyfyngedig yn arwain at wneud penderfyniadau annheg yn enwedig ar gyfer anifeiliaid organig neu o ansawdd genetig uchel lle mae'r wybodaeth am y farchnad yn ddiffygiol a lle na fyddai system dablau neu systemau gyfeirio arall yn briodol. Yn hytrach, dylid cadw'r system bresennol ond gan dynhau'r drefn ar gyfer ei rheoli fel bod prisiadau'n cael eu cymedroli fel mater o drefn gan banel prisio annibynnol. Bydd hyn yn sicrhau bod ceidwaid gwartheg yn cael eu digolledu'n ddigonol am yr anifeiliaid y maent yn eu colli a gall y wlad fod yn sicr nad yw'n eu gordalu.

C16 Mae Atodiad 1 i'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r holl gynigion a gafodd eu hystyried gan Fwrdd y Rhaglen i Ddileu TB. A oes unrhyw gynigion eraill sydd angen eu hystyried yn eich barn chi? Os felly, rhowch fanylion.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr gredu bod y cwestiwn hwn yn gofyn am fwy na chynigion ar gyfer talu am wartheg â TB. Gofynnir am sylwadau ar y rhaglen ehangach yng nghwestiwn 26. Roedd y rhan fwyaf a atebodd y cwestiwn hwn yn teimlo bod yna gynigion eraill y dylid eu hystyried gan gynnig y syniadau a sylwadau canlynol:

- System ar gyfer Cymru gyfan sy'n creu tablau ar gyfer systemau anifeiliaid a bridiau amrywiol (magu, pesgi a godro) ac sy'n talu cyfartaledd y farchnad ar gyfer y system benodol honno, yn seiliedig ar bwysau cyfartalog neu bris penodol fferm a'r pris lladd (a all newid o flwyddyn i flwyddyn).
- Cynllun achredu gydag Arferion Gweithredol Safonol o ran lles anifeiliaid, rheoli tir ac annog bioamrywiaeth.
- Nid yw pecyn sy'n talu iawndal uchaf o 50% yn cymell ceidwaid i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu hachosion eu hunain.
- Talu 75% o werth anifail, gyda'r 25% sy'n weddill yn cael ei dalu i ffermwyr sy'n perthyn i gynllun achredu, hynny i reoli risg bioddiogelwch.
- Dim angen cynlluniau sicrwydd newydd, yn hytrach dylai cynlluniau fod yn addas i'r diben. Oherwydd baich gweinyddol enfawr y cynlluniau hyn, ni lwyddir yn aml i wir gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.
- Cynllun yswiriant i gefnogi ffermwyr.

- Trosglwyddo'r cynllun dileu TB yn gyfan i'r diwydiant heb unrhyw rwystrau i fynd i'r afael â'r holl ffynonellau heintio.
- Trafod pellach gyda Llywodraeth Cymru am ddyfodol iawndal TB mewn modd sy'n rhoi parch ac ystyriaeth deilwng i'r mater.
- Yr unig opsiwn derbyniol yw parhau â phrisiadau unigol ond rhaid talu'r colledion cynhyrchu yn y dyfodol hefyd.
- Tablau prisio ar gyfer stoc fasnachol a phriswyr ar gyfer anifeiliaid pedigri.
- Sefydlu cwmni dileu TB. Dylai gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yr un faint ag sy'n cael ei wario nawr ar TB am y 5 mlynedd nesaf. Dylai'r cwmni gael ei ariannu gan ffermwyr hefyd mewn 2 ffurf. A) ardoll iechyd anifeiliaid ar bob daliad o £5 y pen dyweder. B) ardoll TB a godir ar bob symudiad i ddaliad a gofrestrir gyda BCMS (o'i wneud fel hyn, ni chosbir buchesi caeedig. Mae hefyd yn sicrhau bod delwyr sy'n gallu prynu anifeiliaid a'u symud cyn y prawf nesaf hefyd yn talu). Dylai penaethiaid y cwmni hwn fod yn rhanddeiliaid "go iawn" - ffermwyr, milfeddygon ffermwyr a milfeddygon APHA.

Archwilio'r posibilrwydd o wahardd bwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW)

C17 A ydych yn cytuno â'r cynnig i wahardd bwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd OTFW? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai'n elfen bwysig iawn o unrhyw gynllun i ddileu TB ac yn ychwanegu at y gronfa bresennol o fesurau ataliol neu liniaru. Ond awgrymodd cyfran o'r ymatebwyr y dylid rhoi cymorth ariannol i ffermwyr i'w helpu gyda'r gost o brynu systemau pasteureiddio llaeth. Er bod y cynnig hwn yn cyfeirio at fuchesi godro, roedd rhai ymatebwyr wedi'i ddehongli fel mesur ar gyfer pob math o wartheg, gan gynnwys buchesi sugno, ac yn teimlo y byddai'n anymarferol ei weithredu mewn buchesi o'r fath. Teimlai rhai y dylid ymchwilio i fanteision a chostau llawn polisi o'r fath yn gyntaf, gan gynnwys asesiad o'i ymarferoldeb mewn busnesau bach. Roedd rhai yn cytuno â'r cynnig cyn belled na fyddai'n effeithio ar les lloi o ran cael llaeth tor. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni ynghylch monitro'r gwaharddiad hwn.

Tynnodd llawer sylw at y ffaith mai llaeth fformiwla sy'n cael ei fwydo gan amlaf i loi bach y dyddiau hyn, ond cytunwyd y dylid pasteureiddio unrhyw laeth buwch a fwydir iddynt. Tynnodd rhai sylw at y ffaith bod bwydo llaeth fformiwla yn un o ofynion rhai cynlluniau sicrwydd fferm. Galwodd cyfran fach o ymatebwyr am fwy o dystiolaeth ei bod wedi'i brofi'n wyddonol bod hwn yn llwybr ar gyfer trosglwyddo'r clefyd. Teimlai eraill nad oedd yn broblem fawr p'run bynnag ac nad oedd felly'n fater o flaenoriaeth.

Awgrymwyd y dylid ystyried gadael lloi wrth eu mamau di-glefyd am gyfnod hwy, ac y gellid defnyddio llaeth o wartheg di-glefyd i fwydo lloi. Teimlai eraill nad oedd yn ymarferol rhoi llaeth fformiwla i loi gwryw na lloi eidion o groesiad godro-eidion oherwydd y gost. Roedd rhai o'r farn mai'r ffermwr ddylai benderfynu ar hyn.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dylid defnyddio'r mesur yn ôl rhinweddau'r achos, nid bob tro.
- Bydd pasteureiddio llaeth yn helpu gyda chlefyd Johnie hefyd.
- Rydym yn anghytuno â'r cynnig hwn oherwydd pwysigrwydd bwydo llaeth tor i loi newydd-anedig. Mae ein cynllun achredu yn ein gorfodi i fwydo llaeth tor i loi, felly bydd yn gwneud i ni fynd yn gwbl groes i'r gofyn hwnnw.
- Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo cyllid ar gyfer prynu systemau pasteureiddio llaeth i ffermwyr. Byddent hefyd yn lladd pathogenau eraill. Byddai'n well gennyf hyn na gorfod prynu llaeth powdr gan nad yw cystal â llaeth go iawn ac mae'n cymryd amser i'w baratoi.
- Ni ddylai llaeth buchesi OTFW heb ei basteureiddio gael ei fwydo i loi. O'r hyn a ddeallwn, nid yw'n arfer cyffredin yng Nghymru. Ond, pan fydd hyn yn digwydd, mae'n briodol bod gan filfeddygon APHA fecanwaith i atal yr arfer cyn i unrhyw ganlyniadau ddod i'r amlwg.
- I gefnogi hyn, dylai polisi presennol Llywodraeth Cymru ddarparu sylfaen dystiolaeth glir i brofi bod angen ymyrraeth o'r fath.
- Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn yn rhannol. Y prif ffactor risg yw bwydo llaeth gwastraff heb ei basteureiddio i loi, yn hytrach na bwydo llaeth heb ei basteureiddio o'r tanc llaeth i loi. Byddem yn argymhell na ddylai unrhyw gynhyrhydd, waeth beth fo'i statws TB, fwydo llaeth gwastraff i loi. O'r herwydd, mae gwahardd bwydo llaeth gwastraff heb ei basteureiddio ar safle OTFW i bob golwg yn rhesymol. Cyn estyn hynny i laeth heb ei basteureiddio o'r tanc llaeth, byddai angen tystiolaeth sy'n awgrymu y gall hyn hefyd fod yn ffynhonnell haint i loi.
- Rydym am dynnu sylw at y ffaith, os yw llaeth heb ei basteureiddio o wartheg risg uchel yn beryglus i loi, y dylai ffermydd o'r fath gymryd llo'i oddi wrth eu mamau risg uchel yn syth ar ôl eu geni, neu fel arall gallai'r llo'i fod yn agored i'r clefyd yn ystod oriau cyntaf ei fywyd. Os yw'r llo'n cael ei gymryd oddi wrth ei fam yn syth ar ôl ei eni, bydd angen ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael digon o laeth tor o ansawdd uchel o ffynhonnell arall (gan y byddai llaeth tor y fam yn ffynhonnell haint bosibl). Er yn ddelfrydol y dylai llo'i gael treulio amser gyda'i fam ar ôl ei eni, rydym yn cydnabod y gallai fod angen ei gymryd yn syth oddi wrth ei fam fel mesur dros dro er mwyn rheoli clefydau heintus ond y dylai'r cynhyrchwyr anelu at roi'r gorau i'r arfer hwn cyn gynted ag y meddir.

TB a rhywogaethau nad ydynt yn fuchol

C18 Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gydgrynhoi'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer defaid a moch yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynnig ac yn ei ystyried yn un sy'n cyd-fynd yn well â'r ddeddfwriaeth, yn ffordd fwy cydgysylltiedig o wneud pethau ac yn rhywbeth a fyddai'n annog ceidwaid gwartheg i ymgysylltu fwy. Roedd rhai o'r farn ei bod yn synhwyrol safoni'r ddeddfwriaeth ar gyfer pob rhywogaeth sy'n gallu dal TB, y byddai'n symleiddio'r broses o reoli clefydau heb gynyddu costau'n sylweddol ac y byddai hefyd yn helpu i gasglu mwy o ddata am nifer yr achosion o TB yn y rhywogaethau hynny.

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn dehongli'r cynnig hwn i olygu cynnal profion TB a thagio defaid a moch, a dywedwyd y byddai profi diadellau mawr o ddefaid yn anymarferol. Roedd cyfran fach o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnwys rhywogaethau eraill yn gyntaf, fel bywyd gwyllt (moch daear, cadnoid a cheirw) a chŵn hela, cyn cynnwys defaid a moch. Roedd rhai yn credu ei fod yn faes pwysig sy'n cael ei anwybyddu, yn enwedig o ran defaid. Awgrymodd un neu ddau o'r ymatebwyr y dylid cynnwys geifr hefyd, ond mae'r rhain eisoes wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011.

Dyma rai sylwadau:

- Rhaid i'r mesur fod yn gymesur â'r risg ac yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac o bosibl ar dreialon maes.
- Mae angen darn ar wahân o ddeddfwriaeth ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn wartheg.
- Dylid cyfuno Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad â Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 i gynnwys moch daear, cadnoid ac anifeiliaid eraill sy'n gallu dal y clefyd.
- Mae angen mwy o dystiolaeth am y clefyd yn y rhywogaethau hynny cyn eu cynnwys yn y Gorchymyn TB.
- Mae angen mwy o ymchwil i dechnegau profi diagnostig ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn wartheg, a dylid datblygu protocolau ar gyfer profi'r rhywogaethau hynny.
- Mae'r deddfwriaeth bresennol ar gyfer anifeiliaid heblaw gwartheg yn aneglur a byddai diwygiadau pellach yn ei chymhlethu.
- Mae'r pwerau presennol yn ddigonol.
- Rydym yn croesawu'r cynnig hwn gan y Llywodraeth, gan ei fod yn rhoi cyfle i weithredu protocolau clir a chyson ar gyfer gofynion deddfwriaethol mewn rhywogaethau fferm nad ydynt yn wartheg.

C19 Ydych chi'n cytuno â nodi anifeiliaid nad ydynt yn fuchol at y dibenion profi TB a ddisgrifir yn adran 9B? Esboniwch eich rhesymau.

Er bod mwyafrif llethol o blaid y cynnig hwn, roedd pobl wedi camddeall gan gredu ei fod yn ymwneud â thagio anifeiliaid nad ydynt yn wartheg at ddibenion cyffredinol, nid yn benodol at ddiben profion TB.

Roedd cyfran o'r ymatebwyr yn deall y mesur hwn fel un penodol ar gyfer camelidau, a soniodd rhai am resymau cyffredinol o ran iechyd a lles anifeiliaid dros dagio anifeiliaid nad ydynt yn wartheg. Roedd rhai o'r farn y byddai hyn yn ffordd o sicrhau dull mwy cydgysylltiedig sy'n debygol o ennyn cefnogaeth ceidwaid gwartheg.

O'r gwahanol ffyrdd o dagio, microsglodion oedd fwyaf poblogaidd ymhlith y cyfranogwyr. Roedd llawer o'r farn ei bod yn hanfodol er lles y polisi profi TB cyfan bod modd adnabod pob anifail sy'n cael prawf TB. Byddai hynny'n rhan resymegol o'r drefn profi ac yn sicrhau y gellir olrhain ac adnabod anifeiliaid a brofwyd yn gywir. Roedd llawer am weld cronfa ddata adnabod genedlaethol ar gyfer pob rhywogaeth, ac roedd rhai'n cwestiynu'r angen am gronfeydd data adnabod ar wahân mewn tair

gweinyddiaeth. Roedd un neu ddau o'r ymatebwyr yn deall bod angen eu hadnabod er mwyn gallu talu iawndal am anifeiliaid sy'n adweithio i brofion TB.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dylid cofrestru lleoliadau a nifer yr anifeiliaid a gedwir, ond nid oes angen adnabod anifeiliaid unigol.
- Yn fwy priodol ar gyfer da byw sy'n cael eu symud oddi ar fferm.
- Nid yw'r profion ar anifeiliaid nad ydynt yn wartheg yn ateb y gofyn ac nid oes diben nodi'r rhywogaethau hyn hyd nes y caiff hyn ei ddatrys.
- Mae anifeiliaid nad ydynt yn wartheg yn cael eu cadw fwyfwy fel anifeiliaid anwes, felly nid oes angen eu hadnabod.
- Cwestiynau a yw anifeiliaid nad ydynt yn wartheg yn gymwys i gael iawndal ac os nad ydynt, yna dylid tagio adweithyddion yn unig a thynnu lluniau.
- Dylid difa pob anifail sydd heb ei dagio.
- Rhaid sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddeddfwriaeth ar gyfer camelidau a gwartheg.

Llywodraethu

C20 A ydych yn cytuno â swyddogaeth a chynrychiolwyr Bwrdd y Rhaglen i Ddileu TB? Esboniwch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â rôl ac aelodaeth Bwrdd y Rhaglen Dileu TB, ond cafwyd safbwyntiau cymysg yn yr atebion i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai o'r farn bod cyhoeddi Rhaglen Dileu TB a Chynllun Cyflawni newydd yn gyfle da i ailedrych ar aelodaeth Bwrdd y Rhaglen, bod yn rhaid wrth drefniadau llywodraethu da wrth eu penodi ac y dylai fod cyfyngiad ar hyd gwasanaeth pawb a benodir er mwyn sicrhau bod yr aelodaeth yn cael ei hadfywio'n awtomatig. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y dylai'r Bwrdd fod yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, er i eraill awgrymu cymysgedd o gynrychiolwyr o'r llywodraeth ac o'r tu allan, gan gynnwys hefyd aelodau nad ydynt yn filfeddygon. Roedd llawer o'r farn y dylai rôl y bwrdd a'i aelodau gael eu diffinio'n glir, ac y dylid esbonio beth yw disgyblaeth y cynrychiolwyr academaidd.

Roedd pawb a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo y dylid cael cynrychiolaeth gyfartal o wahanol gyrrff. Dylai'r gynrychiolaeth hon fod yn eang, yn deg ac yn dryloyw o amrywiaeth o ddiwydiannau a chefnidiroedd, i gwmpasu pob agwedd ar TB a dileu TB, megis:

- Y Ganolfan Ragoriaeth yn Aberystwyth
- Lles anifeiliaid ac etheg
- Cymdeithasegwr
- Ecolegydd
- Cadwraethwyr
- Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Ffermwyr, yn enwedig y rheini sydd wedi profi TB
- Milfeddygon
- Swyddogion
- Academyddion
- Ystadegwyr
- Epidemiolegwyr
- Arbenigwyr mewn bywyd gwyllt, yr amgylchedd a chynefinoedd
- BVA a BCVA
- Arwerthwyr/priswyr
- Partneriaid Milfeddygol
- Undebau ffermwyr
- Arbenigwyr cyfathrebu a rheoli newid
- Cynrychiolwyr Gweinidogion
- Gwleidyddion (Senedd)
- Rhywun sydd â diddordeb mewn TB mewn anifeiliaid gwyllt fel ceirw, baeddod a geifr
- Ffederasiwn y Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Cadeiryddion y Byrddau Dileu Rhanbarthol
- Proseswyr bwyd
- APHA
- OCVO

Dyma sylwadau eraill a gafwyd:

- Os caiff aelodau eu penodi gan Lywodraeth Cymru, mae perygl y ceir canfyddiad o ddiffyg tryloywder a diffyg annibyniaeth.
- Dylid cynnwys gwyddonwyr nad ydynt yn ymwneud â'r ymchwil nac ag addysgu amaethyddiaeth neu wyddorau cysylltiedig, i graffu ar ddilysrwydd gwyddonol unrhyw benderfyniadau gweithredol.
- Dylid cynnwys ystadegydd arbenigol i graffu ar ddata yr honnir bod ganddo arwyddocâd ystadegol.
- Dylent fod yn benodiadau cyhoeddus.
- Dylid sefydlu byrddau lleol ar wahân yn eu lle.
- Dylid cyhoeddi manylion a phrofiad aelodau'r bwrdd.
- Nid yw Bwrdd Presennol y Rhaglen yn dryloyw; ni fu unrhyw ymgynghori â'r diwydiant ynghylch ei gylch gorchwyl.
- Dylid talu aelodau'r bwrdd yn briodol. O beidio â gwneud, gellir colli'r rhai a allai gymryd rhan.
- Rydym yn llwyr gefnogi sefydlu partneriaeth sy'n cynnwys ffermwyr, milfeddygon, swyddogion y llywodraeth a rhanddeiliaid priodol eraill (proseswyr bwyd, cadwraethwyr, gwyddonwyr) fel strategaeth i annog trafod adeiladol a sicrhau bod y strategaeth dileu TB gwartheg yn unedig ac yn briodol i'r ardal.
- Rydym yn cefnogi rôl y Bwrdd; a dylai lles anifeiliaid fod yn ganolog i'w holl ystyriaethau ac wrth wraidd ei gynrychiolaeth a'i waith monitro yn y dyfodol.
- Yn cytuno â rôl Bwrdd y Rhaglen Dileu TB, ond bydd y rhaglen a'r cynllun cyflawni newydd yn gyfle da i adfywio'r gynrychiolaeth gyda'r bobl orau o

bob rhan o'r byd academiaidd, diwydiant a Llywodraeth Cymru/APHA i gyfrannu at waith y bwrdd.

- Rhaid wrth drefniadau llywodraethu da wrth benodi aelodau a rhaid i bob person a benodir wasanaethu am gyfnod penodedig i sicrhau bod yr aelodaeth yn cael ei hadfywio'n awtomatig.
- Rydym am weld y Ganolfan Ragoriaeth TB yn cyfrannu fwy at waith y prif fwrdd ac at ddatblygu polisi.

C21 Ydych chi'n cytuno ag unrhyw rai o'r opsiynau a ddisgrifir o ran sut y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y Rhaglen Dileu TB a ddisgrifir yn adran 10B? Os ydych, nodwch ba rai. Os nad ydych, esboniwch y rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno ag o leiaf un o'r opsiynau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cadw strwythur presennol y byrddau rhanbarthol (Opsiw 1) ond dylid adfywio'r aelodaeth a dylid pennu hyd aelodaeth. Barnwyd mai strwythur o'r fath fyddai'n cyfateb orau i lefel y risg o TB mewn gwahanol rannau o Gymru. Yr opsiynau nesaf, yn eu trefn oedd Opsiw 3, Opsiw 2 ac Opsiw 4. Roedd rhai o'r farn na fyddai un grŵp rhanddeiliaid yn gallu darparu gwybodaeth digon manwl, tra byddai byrddau rhanbarthol yn esgor ar gymhlethdod a rhywfaint o orgyffwrdd. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr y dylid rhoi cylch gorchwyl clir i bob bwrdd, gyda lefel briodol o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac APHA a chyfathrebu clir.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Mae gormod o ffermwyr a milfeddygon yn aelodau o'r byrddau a dim digon o arbenigwyr natur a bioamrywiaeth.
- Gall haenau ychwanegol gymhlethu'r broses atebolrwydd a chyfathrebu ac o bosibl ychwanegu at y costau.
- Rhai pryderon ynghylch gormod o faich gweinyddol os bydd yna ormod o fyrddau.
- Mae TB mewn gwartheg yn glefyd sy'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac felly byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynlluniau i ddiwygio strwythur daearyddol y Bwrdd yn parhau i gydnabod manteision rhannu Cymru'n rhanbarthau llai wrth fynd i'r afael â'r clefyd hwn ac â'r heriau penodol sy'n codi mewn gwahanol rannau o Gymru
- Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer strwythur dileu rhanbarthol yn gallu bod yn hyblyg yn y dyfodol.
- Efallai y bydd rhywfaint o fudd i leihau nifer y byrddau i ddau yn hytrach na thri fel rhan o'r adolygiad llywodraethu. Byddai hynny'n cyd-fynd â'r ddwy swyddfa rhanbarthol yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon yn y De a'r Gogledd a'r ddau Bartner Cyflenwi Milfeddygol (VDP).
- Mae'n bwysicach bod pa strwythur bynnag y cytunir arno yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer dileu'r clefyd hwn. Dylid adolygu rolau a chyfrifoldebau'r cyrff llywodraethu i ymgorffori llywodraethu clir a chyfathrebu da a chyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan.

C22 A ydych yn credu bod dull amgen ar gael? Os ydych, esboniwch ymhellach.

Roedd ychydig dros hanner y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn credu nad oedd dull amgen. O'r rhai a gredai fod yna, gwnaed y sylwadau a'r awgrymiadau canlynol:

- Sefydlu cwmni dileu TB (fel yr un yn Seland Newydd), hanner wedi'i ariannu gan ffermwyr a hanner wedi'i ariannu gan y llywodraeth. Bydd y cwmni'n cael ei redeg gan ffermwyr, cynrychiolwyr ffermwyr, milfeddygon preifat a milfeddygon APHA.
- Y byrddau rhanbarthol a'r grŵp technegol i fod yn aelodau o brif fwrdd y rhaglen. Bydd hyn yn galluogi meddwl cydgysylltiedig.
- Cynrychiolaeth deg, cyfartal a thryloyw. Dylai gwybodaeth wyddonol fod ar gael yn hawdd, efallai drwy daflenni a ddsberthir i'r gymuned ffermio, trwy lyfrgelloedd.
- Rôl byrddau rhanbarthol o ran trosglwyddo gwybodaeth, ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant.
- Un bwrdd gydag is-grwpiau llai, a chynrychiolwyr o bob grŵp llai ar y prif fwrdd.
- Cynigiwyd system Seland Newydd gan ddau ymatebydd, lle'r diwydiant sy'n gyfrifol am ddileu'r clefyd, er mwyn sicrhau parhad waeth beth fo'r newidiadau gwleidyddol dros amser.

C23 A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu Grŵp Cynghori Technegol? Os ydych, awgrymwch ddisgyblaethau gwyddonol a allai ychwanegu gwerth at y Rhaglen. Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

Roedd mwyafrif llethol y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn cytuno y byddai Grŵp Cynghori Technegol (TAG) o fudd i'r Rhaglen. Roedd rhai o'r farn y byddai'n grŵp allweddol, a gall ond fod yn effeithiol os gall fwydo polisi'r llywodraeth. Bydd angen iddo fod yn hyderus bod ei gyngor technegol yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso'n briodol, gyda chanllawiau clir. Roedd llawer yn teimlo y dylai aelodau'r grŵp feddu ar brofiad ymarferol, heb wrthdaro buddiannau, yn annibynnol ar y llywodraeth, ac y dylent dargedu prif amcanion y rhaglen ddileu. Roedd un ymatebydd yn credu mai dyma'r peth cyntaf y dylid ei wneud cyn newid unrhyw beth arall.

Roedd rhai o'r farn y gallai'r TAG fod yn gysylltiedig â'r Ganolfan Ragoriaeth TB a dylai'r aelodaeth roi persbectif ymarferol a thechnegol ar unrhyw gyngor. Yn gyffredinol, teimlwyd y dylai'r grŵp fod yn gymysgedd o arbenigwyr technegol, ymchwilwyr, academyddion a rhai â phrofiad ymarferol o weithio ar lawr gwlad. Roedd rhai o'r farn y dylai gwahanol dimau ymchwil fwydo i'r TAG, gyda mewnbynnau rheolaidd gan grwpiau sy'n llunio profion.

Dyma rai awgrymiadau mwy penodol ynghylch aelodaeth TAG:

- Imiwnolegwyr sy'n arbenigo mewn diagnosteg, yn ogystal ag imiwnolegwyr sy'n arbenigo mewn brechlynnau;
- Y Ganolran Ragoriaeth TB, Prifysgol Aberystwyth;
- Epidemiolegwyr;

- Amgylcheddwyr;
- Cadwraethwyr;
- Biolegwyr;
- Gwyddonwyr cymdeithasol neu ymddygiadol, gan gynnwys economeg iechyd anifeiliaid
- Cymdeithasegwyr a fyddai'n deall sefyllfa'r rheini sy'n dibynnu ar y diwydiant da byw am eu bywoliaeth;
- Arbenigwyr mewn hwsmonaeth;
- Arbenigwr cyfathrebu i ymgysylltu'n well;
- VDPs;
- Arbenigwyr bywyd gwyllt;
- Ecolegwyr;
- Y diwydiant/ffermwyr (yn cynrychioli systemau ffermio gwahanol);
- BVA/BCVA;
- Cynrychiolwyr hylendid cig;
- Milfeddygon o amrywiaeth o gefndiroedd (ddim rhai'r llywodraeth yn unig);
- Academyddion;
- Bacteriolegwyr/microfiologwyr;
- Hinsoddwyr a maethewyr i gyfrannu at ein deall sut y bydd angen i ffermwyr newid er mwyn arafu newid hinsawdd;
- Peirianwyr, i gyfeirio ffermwyr at ddiwydiannau gwyrddach;
- Addysgwyr, i greu negeseuon effeithiol ar gyfer hysbysu'r cyhoedd am y newidiadau sydd eu hangen i gynnal amodau amgylcheddol hyfyw;
- Seicolegydd cymdeithasol a chymunedol;
- Arbenigwr lles anifeiliaid;
- Pobl gyffredin;
- Ystadegydd;
- Ymchwilwyr i anifeiliaid ac amaeth;
- Doctor;
- Cwmnïau masnachol;
- Undebau;
- Aelodau o Fyrddau Ardollau;
- Cynrychiolwyr gwledydd eraill, yn enwedig Gogledd Iwerddon a'r Alban; Llywodraeth Cymru a Defra i gymharu eu sefyllfaoedd;
- Cynrychiolwyr gwadd o wledydd eraill lle mae polisïau dileu TB wedi bod yn llwyddiannus;
- Prifysgol Nottingham;
- Cynrychiolydd sydd â diddordeb mewn TB mewn anifeiliaid gwyllt fel ceirw, baeddod a geifr.

Dyma sylwadau eraill a gafwyd:

- Dylai'r Cadeirydd fod yn aelod o Fwrdd Rhaglen Dileu TB Cymru.
- Mae angen newid agweddau'r cyhoedd a'r diwydiant ffermio at bob agwedd ar les anifeiliaid.
- Byddai Canolfan Ragoriaeth TB Aberystwyth yn opsiwn gwych i greu canolfan ar gyfer cynghori Llywodraeth Cymru a'r diwydiant ar ddulliau diagnostig newydd a ffyrdd o fynd i'r afael â TB yng Nghymru.

- Dylai bwrdd y rhaglen allu chwilio am arbenigedd o wahanol ffynonellau, nid o reidrwydd o fewn grŵp o unigolion ar y bwrdd technegol.
- Byddai'n synhwyrol penderfynu pa ymchwil y gallai fod ei hangen a sut i ddefnyddio canfyddiadau, gyda mewnbwn gan y rhai sydd wedi cael yr hyfforddiant perthnasol ac sydd â'r arbenigedd ac yn bwysicach, y profiad.
- Dylai'r Grŵp Cynghori Technegol adrodd i'r diwydiant, Bwrdd y Rhaglen Dileu TB a'r Byrddau Rhanbarthol Dileu TB.
- Rhaid i waith y grŵp hwn fod yn annibynnol, yn agored i bawb ac ar gael i'r diwydiant. Gwrthodir y cynnig y dylai'r bwrdd technegol fod yn atebol i fwrdd y Rhaglen, am y dylai gwaith y Grŵp Technegol fod yn gwbl dryloyw ac annibynnol ar bolisïau a 'llinellau coch' y Llywodraeth. Byddai sefydlu grŵp y gallai'r diwydiant alw arno i ddarparu gwybodaeth dechnegol am ystod eang o faterion sy'n ymwneud â TB yn cael ei groesawu.
- Un pryder yw y gallai fod gormod o grwpiau cynghori, gyda gormod o dystiolaeth a barn yn cael eu cyflwyno, gan wneud y sefyllfa hyd yn oed yn fwy dryslyd, a bod perygl dewis aelodau nad ydynt yn wrthrychol.
- Bydd arbenigedd Epidemiolegol yn hanfodol.

Cwestiynau eraill

C 24: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Roedd llawer o atebwyr y cwestiwn hwn yn cydnabod bod ffermio'n rhan bwysig o gefn gwlad Cymru ac o ddiwylliant a chymunedau Cymru. Roedd cyfran o'r ymatebwyr yn credu bod y Gymraeg yn y diwydiant ffermio wedi crebachu. Roedd rhai o'r farn nad yw'r sefyllfa fel y mae yn debygol o ddenu pobl ifanc i Gymru, bod y polisi TB yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd a pholisïau amgylcheddol yn y dyfodol yn gwrthio pobl ifanc, Cymraeg eu hiaith allan o gefn gwlad i bob pwrpas ac yn gorfodi busnesau ffermio i werthu (gan gynnwys i gwmnïau niwtraleiddio carbon mawr), gyda phobl o ganlyniad yn symud o Gymru.

Y farn gyffredinol oedd y bydd unrhyw beth sy'n cael effaith negyddol ar gefn gwlad Cymru yn effeithio ar y Gymraeg. Er enghraifft, os bydd y sefyllfa o ran TB yn gwaethygu, bydd hynny'n sicr o arwain at fwy o ffermwyr yn rhoi'r gorau i ffermio da byw a chan hynny at ddirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg, gydag effaith negyddol ar nifer y genhedlaeth iau sy'n ei dysgu ac yn ei defnyddio. Roedd un unigolyn yn credu mai ar ddiwylliant Cymru yn hytrach nag ar yr iaith y ceid yr effaith fwyaf. Roedd rhai o'r farn bod y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn fygythiad i'r Gymraeg. Teimlwyd hefyd gan rai y byddai unrhyw beth sy'n gwella iechyd a lles gwartheg yn gwella iechyd a lles yr economi wledig a lles y gweithlu ffermio, nawr ac yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebwyr, ar y llaw arall, yn teimlo nad oedd y cynigion yn berthnasol i'r Gymraeg, na fyddent yn cael unrhyw effaith arni, a dywedwyd mai ymgynghoriad ar TB oedd hwn a dylai ganolbwyntio ar ddileu TB ac nid canolbwyntio ar yr iaith. Roedd llawer yn credu y dylid trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg a dylai pob gohebiaeth fod yn ddwyieithog. Roedd rhai unigolion yn credu bod peidio â thaclo TB

wedi arwain at gynnydd mewn problemau iechyd meddwl ymhlith ffermwyr sy'n ceisio cymorth gan elusennau iechyd meddwl.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Dylai milfeddygfeydd allu cynnig o leiaf un milfeddyg sy'n siarad Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.
- Dylid ystyried defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn y ddwy iaith.
- Byddai ap TB dwyieithog yn ddefnyddiol.
- Gallai siaradwr Cymraeg yn ystod y DRF fod yn ddefnyddiol iawn, yn ogystal â milfeddygon sy'n siarad Cymraeg sy'n delio ag achosion.
- Nid yw pob milfeddyg yn ardaloedd gwledig Cymru yn siarad Cymraeg. Dylid annog pobl heblaw milfeddygon i gynnal profion TB, yn enwedig o fewn cronfa o gynorthwyyr milfeddygol sydd wedi'u hyfforddi'n dechnegol. Gallai cynorthwyyr technegol sy'n siarad Cymraeg helpu gyda'r DRFs.
- Bydd unrhyw gamau i wella'r ffordd y caiff TB gwartheg ei reoli a'i ddileu yn helpu cymunedau gwledig yng Nghymru drwy wneud ffermio gwartheg yn fwy llewyrchus. Gan fod gan gymunedau gwledig ganran uwch o siaradwyr Cymraeg, bydd y sefyllfa o ran rheoli'r clefyd a'i effaith ar ffermydd a'r teuluoedd sy'n byw yno yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Gall TB fod yn ddinistriol i fusnesau a theuluoedd ffermio, fel y bydd mesurau rheoleiddio yn y dyfodol o ran diogelu dŵr ac aer, gyda chostau'n cynyddu oherwydd prisiau nwyddau uchel, gan orfodi ffermwyr Cymraeg eu hiaith i adael y diwydiant a'r ardal.

C 25: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd barn yr unigolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai yn C24, lle'r oedd ymatebwyr yn credu bod y pwysau a'r straen ar y diwydiant a'r gymuned amaethyddol gwledig yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Unwaith eto, nid oedd rhai ymatebwyr yn gweld sut gallai'r polisi arfaethedig fod yn berthnasol i'r Gymraeg, a soniodd nifer am effaith y sefyllfa ar iechyd meddwl.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

- Gan fod prinder cenedlaethol o filfeddygon, ystyriwch gyflwyno Profwyr TB Cymeradwy fel ag a wneir yn Lloegr. Gallai para-weithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg ac sydd â sgiliau trin gwartheg gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy siarad â cheidwaid a gallai eu cyflwyno o fewn milfeddygfeydd preifat helpu i leihau'r bwlch presennol rhwng y diwydiant a Llywodraeth Cymru.
- Annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais i ysgolion milfeddygol. Gall yr ysgol filfeddygol newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth chwarae rôl arweiniol wrth gydweithio â milfeddygfeydd a'r ddau bartner cyflenwi milfeddygol i feithrin a hyrwyddo'r iaith.

- Annog mentrau i filfeddygon nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith at lefel lle gallent gyfathrebu â chleientiaid yn eu hiaith gyntaf.
- Aelodau Cymraeg eu hiaith ar y byrddau.
- Dylai milfeddygon achos allu siarad Cymraeg.

C26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y ddogfen hon. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Cyflwynwyd llawer o sylwadau fel ymateb i'r cwestiwn hwn, gan adlewyrchu ystod eang iawn o safbwyntiau a phynciau, er bod rhai themâu yn ailadrodd atebion cwestiynau blaenorol. Mynegodd llawer o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu diolch am i ni roi'r gorau i drapio moch daear a'r profion mewn buchesi ag achosion parhaus. Roedd cyfran lai o'r farn bod angen mynd i'r afael â bywyd gwyllt yng nghyd-destun dileu TB.

Dyma rai o'r sylwadau eraill a gafwyd:

- Bydd y polisïau a gynigir yn golygu y bydd llawer mwy o bobl yn rhoi'r gorau i ffermio da byw a llawer llai o bobl ifanc yn dewis gweithio ar eu ffermydd teuluol neu weithio ar ffermydd.
- Dylai cymhellion neu grantiau ariannol fod ar gael i helpu i weithredu newidiadau bioddiogetlwch ar y fferm.
- Agweddau positif at y dull newydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu ar gyfer mynd i'r afael â TB gwartheg. Roedd angen mawr amdano ac yn hir-ddisgwyliedig. Mae'n cydnabod mai'r brif broblem yn y diwydiant gwartheg yw arferion anghynaliadwy neu gamreoli.
- Dylid ystyried y fasnach drawsffiniol â Lloegr a dylai'r cynigion gyd-fynd â'r gofynion TB yn Lloegr.
- Mae angen i negeseuon a pholisïau fod mor gyson â phosibl ar draws y gwledydd datganoledig. Mae ffermwyr a milfeddygon yn gweithio ar draws ffiniau Cymru a Lloegr ac mae gwartheg yn cael eu masnachu ledled y DU.
- Dylid mynd i'r afael â phob un o ffynonellau'r clefyd.
- Angen mwy o addysg i ffermwyr am epidemiolog TB a moch daear.
- Rheoli a chyfyngu ar symud slyri. Byddem wedi croesawu sylw i sut y mae camreoli slyri yn creu risg o ledaenu'r clefyd a chynigion i reoli hynny.
- Gofynion profi Marchnadoedd Oren, gan fod y rheolau presennol yn rhy gyfyngol.
- Effaith mesurau dileu TB gwartheg ar iechedd a lles ffermwyr, yn enwedig iechedd meddwl.
- Brechu moch daear – dylai grwpiau bywyd gwyllt gyfrannu at y gost.
- Cadw golwg ar foch daear (profi gwaed a chasglu data).
- Defnyddio profion mwy sensitif ac ystyried rôl profion atodol fel Idexx ac Enferplex.
- Effeithiau cymdeithasol ac iechedd meddwl y sefyllfa bresennol - dylai polisïau/mecanwaith cymorth fod ar waith i helpu'r rhai yr effeithir arnynt.

- Datblygu modiwlau cyfathrebu a hyfforddi mwy deniadol ar gyfer ffermwyr a milfeddygon (e.e. apiau symudol).
- Gwella'r broses o gasglu data a rhannu data.
- Dylid cyflwyno polisi cyfyngu ar Adweithyddion Amhendant am oes.
- Cynnal ail brawf ar Adeithyddion Amhendant gan ddefnyddio'r dehongliad llym. Os yw'n parhau'n amhendant, defnyddio IFN-gama.
- Annog datblygu profion newydd.
- Tynnu moch daear oddi ar y rhestr o rywogaethau a warchodir.
- Dylid ystyried cymryd lloï oddi ar famau sy'n adweithio i TB.
- Dylai adnewyddu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru (2017-2022) i gefnogi ymchwil a monitro TB mewn ceirw gwyllt.
- Mynd i'r afael â TB mewn bywyd gwyllt er mwyn ennyn cefnogaeth ffermwyr.
- Ystyriaethau ar ddiwedd tenantiaeth - amrywiaeth o faterion i'w hystyried ar ddiwedd tenantiaeth unigolion sydd o dan gyfyngiadau TB. Nid yw landlordiaid a'u hasiantau bob amser yn deall na fydd yn bosibl rhoi fferm wag ar rent oherwydd statws TB yr anifeiliaid ar dir sy'n rhan o'r denantiaeth.
- Nid oes sôn am y fector bywyd gwyllt ac eto mae hyn yn rhan bwysig o reoli TB. Efallai nad bywyd gwyllt yw prif achos y rhan fwyaf o achosion o TB, ond y mae mewn nifer sylweddol. Mae rheoli bywyd gwyllt heintiedig gan ddefnyddio brechlyn yn unig yn aneffeithlon ac yn ddrud.
- Sampl ar hap ar draws ardal fawr yw'r arolwg o foch daear marw ac ni ddylid dibynnu arno i lunio polisi mewn ardaloedd lle ceir llawer o achosion o TB. Ffordd well o ddeall faint o TB sydd o fewn y boblogaeth moch daear mewn ardaloedd lle ceir llawer o achosion yw trwy ddal a phrofi moch daear yn eu brochfeydd.
- Mae angen dadansoddi'r rhesymau pam mae cymaint o symudiadau gwartheg a sut i leihau'r angen amdanynt.
- Nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi'i lunio yng nghyd-destun y broblem fwyaf ym maes ffermio heddiw - effeithiau andwyol ffermio ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

3 Datganiad ar y Camau Nesaf

Byddwn yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ym mis Gorffennaf i esbonio cyfeiriad y rhaglen Dileu TB o'r newydd.

Atodiad A

Rhestr o Unigolion/Sefydliadau a ymatebodd i'r Ymgynghoriad. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys y rheini a ofynnodd am gael bod yn ddi-enw na'r rheini na nododd eu dymuniad.

Y Camau i'w Cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael o'r ddogfen hon o ofyn amdanynt.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Tîm TB
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
E-bost: bovinetb@gov.wales

Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori i gyd wedi'u cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig. I'w gweld, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [Rhaglen Ddiwygiedig ar gyfer Dileu TB | LLYW.CYMRU](#)

Atodiad 1 – Ymatebwyr sydd wedi'u henwi

1. Brian Jones
2. Dai Evans
3. Beth Godley
4. Mary Barton
5. Johanna Macmahon
6. Nicky Loveday
7. Renee Byam
8. Shân Lloyd-Packer
9. Dr Gareth Huw Lewis
10. Roger Little
11. Carol Handcock
12. Winifred Margaret Cave
13. Beverley Foster
14. M Jones
15. Dr John Anthony O'Connor, PHD, BSc(Hons), MRCVS, CBiol, MRSB, MRCVS
16. Margaret Christian
17. Susan Flanders
18. Mike Rendle, Northern Ireland Badger Group
19. Jill Claye
20. Mr Simon Jones, Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru / Morgan Evans & Co. Ltd.
21. Anne-Marie Hewitt
22. Vanessa Mason, Somerset Badger Group
23. Evan Roberts.
24. Dyfrig Griffiths
25. Rhys Morgan
26. Hannah Darnell, Scottish Badgers
27. Ian Newman
28. Jenny Pike, Devon Badger Group
29. Lyndon Edwards
30. Linda Griffiths
31. Clare Sandels
32. Jenny Layton Mills
33. Darren Parker, Essex Badger Protection Group
34. Val Stephenson
35. Steve Clark, Grŵp Moch Daear Gwent
36. Huw Evans
37. Patricia Scoffield
38. Anthony Scoffield
39. Megan Jones
40. Evan Roberts ar ran Bwrdd Rhanbarthol Dileu TB y Gogledd
41. Martin Griffiths
42. Chris Mossman
43. Thomas Kearney
44. Tim Brigstocke, Royal Association of British Dairy Farmers
45. Jeff Laing
46. Tim Birch
47. Richard Lewis

48. Eilir Evans
49. Abi Reader
50. Erica Swan
51. Diane Shah
52. Clive C. Roads FLAA
53. David Thomas, Iechyd Da (Gwledig) Ltd
54. Barry Wise
55. Sarah Reisz, Grŵp Moch Daear Dyfi
56. Peter Hambly, Badger Trust
57. Elaine Masci, Grŵp Moch Daear Morgannwg
58. Glyn Challinor, South Yorkshire Badger Group
59. Gary Owen MRAC MRICS FAAV
60. Caryl Haf, Ffermwyr Ifanc Cymru
61. Simon Wilson
62. Don Thomas, Welsh Lamb and Beef Producers Ltd